

# Refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd

Treuliau Swyddogion Cyfrif  
Nodiadau Canllaw

Cyhoeddwyd Mawrth 2016

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [publications@electoralcommission.org.uk](mailto:publications@electoralcommission.org.uk)

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod yw sicrhau uniondeb a meithrin hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gaiff eu rhedeg yn dda.

# Cynnwys

1	Cyflwyniad.....	5
2	Hawliadau refferendwm - cefndir deddfwriaethol.....	10
	Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 .....	10
	Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015 .....	10
	Gorchymyn y Refferendwm ar Aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd (Taliadau Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol) 2016 .....	12
	Rheoliadau Cyfrifon Swyddogion Cyfrif, Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a Phrif Swyddogion Cyfrif (Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd) 2016 .....	13
3	Gofynion cyrifyddu .....	14
	Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.....	14
	Gofynion cyffredinol.....	14
	Gofynion penodol .....	14
	Archwilio eich cyfrifon.....	16
4	Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol, Swyddogion Cyfrif Lleol a dirprwyon .....	18
	Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol .....	18
	Swyddogion Cyfrif .....	19
	Dirprwyon a llofnodwyr awdurdodedig.....	19
5	Blaensymiau cychwynnol a phellach .....	20
	Telerau blaensymiau .....	20
	Blaenswm cychwynnol .....	20
	Blaensymiau pellach .....	21
	Defnyddio blaensymiau .....	21
6	Gwneud hawliad.....	22
	Terfynau amser .....	22
	Cyfrifon anghyflawn.....	23
	Cyfuno Darpariaethau .....	23
	Math o hawliad .....	23
	Gorwariant a thanwariant .....	24
	Cyflwyno eich hawliad .....	25
	Cadarnhau eich hawliad a'r broses gysoni .....	25
7	Craffu ar gyfrifon .....	26
8	Cyngor cyffredinol ar yr hyn y gallwch ei hawlio .....	28
	Costau cyfarpar .....	29
	Meddalwedd reoli .....	31
	Cyfarpar etholiad - eitemau derbyniol ac annerbyniol .....	31
	Archwiliadau'r Post Brenhinol.....	33
	Cynllunio wrth gefn.....	33
	Cyflogi staff - tryloywder .....	34
	Gwasanaethau ar gontract allanol.....	35
	Hawlio am Dreth (TAW a threth incwm) .....	36
	Yswiriant Gwladol.....	37
	Yswiriant ac Indemniad .....	37
	Pensiynau a thaliadau staff .....	38

<b>CWBLHAU'R FFURFLENNI HAWLIO</b> .....	39
9 Crynodeb o gyfrifon - Ffurflen A .....	39
10 Penodi Dirprwyon - Ffurflen B .....	40
11 Manylion Cyfrif Banc - Ffurflen C.....	40
12 Cais am Flaenswm Pellach - Ffurflen D .....	41
13 Gwasanaethau Swyddogion Cyfrif - Ffurflen E .....	42
Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol .....	42
Swyddogion Cyfrif.....	43
14 Costau gorsafoedd pleidleisio - Ffurflen F .....	44
15 Costau cardiau pleidleisio - Ffurflen G.....	47
16 Costau cardiau pleidleisio - Ffurflen H.....	51
17 Costau cyfrif - Ffurflen I .....	52
18 Costau eraill - Ffurflen J .....	55
19 Tryloywder Costau Staff - Ffurflen L.....	61
20 Cofnod o Gyfarpar - Ffurflen M.....	62

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu llunio cyn y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd er mwyn cynorthwyo Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a Swyddogion Cyfrif - yn enwedig y rheini sy'n newydd i'r rôl - drwy egluro'r broses gyllido ar gyfer y refferendwm a sut y dylai Swyddogion Cyfrif gofnodi eu gwariant.

**1.2 Noder, er bod y canllawiau hyn yn adlewyrchu deddfwriaeth a pholisi cyfredol, y gallant newid. Hysbysir Swyddogion Cyfrif o unrhyw newidiadau a diweddariadau drwy'r Bwletin Gweinyddu Etholiadau.**

1.3 Fel y Swyddog Cyfrif neu'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol a benodwyd ar gyfer y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd, chi sy'n gyfrifol am yr holl wariant yr eir iddo wrth gynnal y refferendwm yn yr ardal gyfrif lle rydych yn gweithredu. Dylai Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a Lleol sicrhau eu bod yn darllen pob rhan o'r canllawiau hyn a hefyd sicrhau bod eu timau yn ymwybodol o gynnwys y ddogfen hon. Oni nodir fel arall, neu fod y cyd-destun yn ei gwneud yn ofynnol, bydd y term "Swyddog Cyfrif" yn cyfeirio at rolau Swyddog Cyfrif Rhanbarthol a Swyddog Cyfrif drwy gydol y canllawiau hyn. Mae Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol ond yn gyfrifol am baratoi a chyflwyno'r cyfrifon ar gyfer eu gweithgareddau eu hunain. **Nid** ydynt yn gyfrifol am baratoi a chyflwyno cyfrifon ar gyfer pob Swyddog Cyfrif yn eu rhanbarth, er y byddant hefyd yn Swyddogion Cyfrif yn eu rhinwedd eu hunain, a bydd angen iddynt baratoi a chyflwyno cyfrifon ar wahân ar gyfer eu gweithgareddau fel Swyddog Cyfrif.

**1.4 Cyfrifoldeb personol y Swyddog Cyfrif yw sicrhau bod hawliadau yn cael eu cwblhau'n gywir ac yn effeithiol ac yn cael eu cymeradwyo.**

1.5 Er y gall rhannau o'ch hawliad gael eu paratoi gan ddirprwyon neu staff etholiad, chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyfrifon yn gyflawn, yn ddilys, wedi'u chyflwyno'n gywir a bod modd eu harchwilio. Felly, sicrhewch fod pob rhan o'r hawliad wedi'i chymeradwyo gennych cyn ei gyflwyno i'r Uned Hawliadau Etholiadau oherwydd cyfeirir unrhyw ymholiadau atoch chi yn y lle cyntaf, a rhaid eich bod yn barod i ateb am unrhyw ddiffygion a chyfiawnhau eich penderfyniadau os oes angen.

1.6 Mae'r camau a gymerir gennym mewn perthynas â threuliau yn seiliedig ar yr hyn a oedd ar waith yn etholiadau Senedd Ewrop yn 2014 ac etholiad Senedd y DU yn 2015. Y nod yw sicrhau tryloywder a chywirdeb y broses, tra'n rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i chi ac osgoi cyfarwyddyd canolog sy'n rhy ragnodol.

1.7 Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar y canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet yn etholiad Senedd y DU yn 2015 ac maent wedi'u diweddarau er mwyn adlewyrchu gofynion arbennig y refferendwm a'n cyfrifoldebau arbennig mewn perthynas â rhoi cyfrif amdano. Rydym wedi gwneud rhai newidiadau i'r canllawiau ar ôl ymgynghori â Swyddfa'r Cabinet

ac rydym yn hyderus bod y newidiadau hyn yn adlewyrchu materion a phryderon a godwyd gyda hi.

1.8 Ym mis Chwefror 2013, dechreuodd Swyddfa'r Cabinet ar Gam Un ei rhaglen Adolygu Cyllid er mwyn gwerthuso a chraffu ar y system ar gyfer dyraniadau ariannol Swyddogion Canlyniadau a gyflwynwyd yn 2009. Ystyriodd yr Adolygiad y ffordd y mae'r system gyllido yn gweithio'n ymarferol a lle gellir gwneud gwelliannau er mwyn cyflawni gwerth am arian.

1.9 Arweiniodd y newidiadau at fodel cyllido diwygiedig a fabwysiadwyd am y tro cyntaf ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop yn 2014. Mae'r model newydd yn seilio dyraniadau ariannol ar wariant sefydlog yn yr etholiad perthnasol diwethaf. Mae'r dyraniad ar gyfer y refferendwm yn seiliedig ar wariant sefydlog gwirioneddol yn ystod etholiadau diweddar, a chwyddwyd i ystyried newidiadau ym maint yr etholaeth, nifer y pleidleisiau post, y twf yn y boblogaeth, chwyddiant a chynnydd ym mhrisiau'r Post Brenhinol, gan gynnwys TAW ar gynnyrch y Post Brenhinol.

**1.10** Rydym yn cynnig parhau â'r system adrodd a gyflwynwyd ar gyfer Etholiad Senedd Ewrop yn 2014, sy'n cynnwys tri categori craffu. Bydd hyn yn golygu bod angen dibynnu ar Swyddogion Cyfrif yn dilyn yr egwyddorion mai dim ond pan fo'i angen er mwyn cynnal y refferendwm yn effeithlon ac yn effeithiol yr eir i wariant ac y bydd unrhyw wariant yn cyflawni gwerth am arian.

1.11 Y dyddiad olaf y gellir cyflwyno hawliadau fydd chwe mis i ddyddiad y refferendwm. Mae hyn yn cyfateb i'r terfynau amser a oedd ar waith ar gyfer etholiad Senedd Ewrop ac Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig. Yn ein barn ni, mae'r dyddiad cau hwn yn rhesymol. Fodd bynnag, o ystyried y gall fod angen i Swyddogion Cyfrif a'u staff wneud ychydig llai o waith yn paratoi ac yn darparu dogfennaeth ategol ar gyfer hawliadau sy'n perthyn i'r categorïau Cyfrifon Clir a Chyffyrddiad Ysgafn, byddem yn annog yn gryf fod yr hawliadau hyn yn cael eu cyflwyno cyn i'r cyfnod o chwe mis ddod i ben. Bydd eu cyflwyno'n gynnar hefyd yn cynorthwyo'r Uned Hawliadau Etholiadau i gynllunio ei gwaith a bydd o fantais i bob Swyddog Cyfrif.

1.12 Er na fydd angen i'r rhan fwyaf o Swyddogion Cyfrif gyflwyno tystiolaeth ychwanegol i ategu eu hawliad, dylai pob Swyddog Cyfrif gadw pob anfoneb a darn o dystiolaeth at ddibenion archwilio am chwe blynedd. Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn dewis sampl o Swyddogion Cyfrif ar hap ym mhob categori er mwyn cynnal archwiliad.

1.13 Byddwn yn sicrhau bod adnoddau ar gael fel y gellir prosesu hawliadau yn ddi-oed.

1.14 Lluniwyd y nodiadau canllaw hyn er mwyn eich helpu chi drwy'r broses ac er mwyn egluro'r rhesymeg sy'n sail iddi.

1.15 Mae'r Gorchymyn Taliadau<sup>1</sup> yn pennu uchafswm cyffredinol y gellir ei adennill gennyh. Mae'n cynnwys uchafswm y gellir ei adennill am dreuliau penodol ac uchafswm y gellir ei adennill gan Swyddogion Cyfrif am eu gwasanaethau. Ni allwch adennill mwy na'r uchafswm a nodwyd am eich treuliau heb gael awdurdod ymlaen llaw o dan rai amgylchiadau penodol. Fodd bynnag, o fewn y swm ar gyfer eich treuliau, nid oes terfyn penodol ar yr hyn y gallwch ei wario ar bob elfen benodol. Serch hynny, rhaid i chi sicrhau bod yr holl dreuliau'n angenrheidiol er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

1.16 Telir unrhyw swm mewn perthynas â'r uchafswm y gellir ei adennill am wasanaethau Swyddogion Cyfrif a nodir yn y Gorchymyn Taliadau gennym ar wahân, fel y nodir ym mharagraff 13.2.

1.17 Cewch ddosrannu symiau rhwng y gwahanol swyddogaethau a nodir yn y Gorchymyn Taliadau fel sy'n briodol hyd at yr uchafswm cyffredinol y gellir ei adennill, ar yr amod eich bod yn rhoi cyfrif am y gwariant yn briodol a'ch bod ond yn gwario'r hyn sydd ei angen er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

**1.18 Gofynnwn i chi'n benodol gysylltu â'r Comisiwn am gymeradwyaeth cyn i chi fynd i unrhyw gostau ar eitemau neu wasanaethau penodol. Ymhlith y rhain mae'r canlynol:**

- Defnyddio ymgynghorwyr i gynnal y bleidlais;
- Unrhyw gostau anarferol neu newydd (er enghraifft, caffael unrhyw "eitemau ansafonol" o ran cyfarpar neu wasanaethau rydych yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y bleidlais);
- TG ac unrhyw gyfarpar technolegol arall.

**Gall methiant i wneud hynny arwain at y Comisiwn yn gwrthod eich adalau am wariant o'r fath.**

Manylion cyswllt y Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymholiadau ynghylch ffioedd a thaliadau yw:

E-bost: [referendumclaims@electoralcommission.org.uk](mailto:referendumclaims@electoralcommission.org.uk)

Ffôn: 0333 303 1928

1.19 Mae'r nodyn canllaw hwn yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu cyflwyno hawliadau refferendwm;

---

<sup>1</sup> Rheoliadau y Refferendwm ar Aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd (Taliadau Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol) 2016

- Y gofynion cyfrifyddu, gan gynnwys ansawdd y ddogfennaeth ategol a thalebau, a disgwyliadau'r Comisiwn a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- Statws a chyfrifoldebau Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a Swyddogion Cyfrif Lleol;
- Y trefniadau ar gyfer blaensymiau cychwynol a dilynol;
- Cyfarwyddiadau ar sut i gyflwyno hawliad;
- Gwybodaeth am sut y dylid cyflwyno pob hawliad

1.20 Er mwyn eich cynorthwyo i baratoi eich hawliad, byddwn yn sicrhau bod y taenlenni ar gael yn electronig. Nid yw hyn yn golygu nad oes angen dogfennaeth copi caled mwyach, ond dylai eich helpu i brosesu a chyflwyno eich hawliad yn haws. Rhoddir gwybodaeth fanylach am hyn yn y penodau perthnasol.

1.21 Mae'r nodiadau hyn mor gynhwysfawr â phosibl a gobeithio eu bod yn trafod y rhan fwyaf o'r cwestiynau sy'n debygol o godi. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn cyhoeddi dogfen Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan ochr yn ochr â'r canllawiau. Byddwn hefyd yn defnyddio ein cyhoeddiad, y Bwletin, i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ac ateb unrhyw ymholiadau ychwanegol a allai fod o ddiddordeb ehangach fel sydd angen. Mae'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin ar gael yn:

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/electoral-administrator/eu-referendum>

1.22 Os byddwch yn cael unrhyw anawsterau wrth baratoi neu gyflwyno eich cyfrifon, mae'r Uned Hawliadau Etholiadau wrth law i ddarparu help a chymorth. Mae croeso i chi gysylltu â hi'n uniongyrchol yn y lle cyntaf. Mae'n well gofyn am ei chyngor ymlaen llaw yn hytrach na gorfod delio â chwestiynau anodd ar ôl i chi gyflwyno eich hawliad.

1.23 Manylion cyswllt yr Uned Hawliadau Etholiadau yw:

E-bost: [returning.officers@cabinetoffice.gov.uk](mailto:returning.officers@cabinetoffice.gov.uk)

Ffôn: 01603 704567

#### 1.24 Hoffem eich atgoffa o'r pwyntiau pwysig canlynol yn arbennig:

- Rhaid mynd i wariant er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Rhoddir enghreifftiau o'r mathau o wariant **nad** ydynt yn perthyn i'r categori hwn ym mharagraff 8.13.
- **RHAID** cytuno ar y gwariant a nodir ym mhara 1.18 â'r Comisiwn ymlaen llaw cyn mynd i unrhyw wariant neu ymrwymo i unrhyw beth.
- Rhaid cyflwyno ceisiadau o fewn y cyfnod o chwe mis, gan ddechrau ar ddiwrnod datgan canlyniad y refferendwm yn unol â Rheoliadau Cyfrifon Swyddogion Cyfrif, Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a Phrif Swyddogion Cyfrif (Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd) 2016. Mae



hyn yn ofyniad statudol; felly mae'n anghyfreithlon cyflwyno hawliadau ar ôl y dyddiad cau hwn oni fydd wedi'i gytuno â ni a'i fod yn unol â'r rheoliadau. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 1.11, credwn y gall fod modd i Swyddogion Cyfrif sy'n perthyn i'r categorïau "Cyfrifon Clir" a "Cyffyrddiad Ysgafn" gyflwyno eu hawliadau yn gynt na hyn a byddem yn eu hannog i wneud hynny.

- Gallwn wrthod cytuno ar hawliadau nad ydynt yn bodloni'r gofynion statudol. Mae hyn yn cynnwys hawliadau hwyr, neu rai sydd heb ddigon o ddogfennaeth ategol, neu rai na ellir eu harchwilio. Ymhelaethir ar yr amgylchiadau lle gellir ystyried gwrthod ym Mhennod 6.
- Yn y refferendwm bydd y swm sy'n daladwy am wasanaethau Swyddog Cyfrif yn cael ei dalu mewn dwy ran: telir 75% ar ôl y diwrnod pleidleisio yn yr wythnos sy'n dechrau 27 Mehefin 2016 a thelir y 25% sy'n weddill yn syth ar ôl clirio cyfrifon y refferendwm. Fodd bynnag, o dan baragraff 16 o Atodlen 3 i Ddeddf 2015, mae gan y Comisiwn y pŵer i ostwng neu wrthod talu ffi unrhyw Swyddog Cyfrif os ystyrir na wnaeth ddarparu ei wasanaethau'n ddigonol. Er enghraifft, os bydd Swyddog Cyfrif wedi torri ei ddyletswydd swyddogol neu heb ddilyn cyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif. Nodir gweithdrefn y Comisiwn ar gyfer gwerthuso'r broses o ddarparu gwasanaethau mewn perthynas ag Atodlen 3 i'r Ddeddf ar ein gwefan.

1.25 Bwriedir i'r trefniadau hyn wneud y system yn hyblyg, yn dryloyw ac yn syml i chi ei gweithredu. Mae'r Nodiadau Canllaw hyn yn cwmpasu Cymru, Lloegr, yr Alban a, lle bo'n gymwys, Gogledd Iwerddon a Gibraltar.

1.26 Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi data ar yr hawliadau ar gyfer y refferendwm hwn fel y gwnaeth yn ei adroddiad ar gostau Refferendwm 2011 ar y System Bleidleisio. Croesewir awgrymiadau gan Swyddogion Cyfrif a'u timau ynghylch pa wybodaeth neu ddadansoddiad a fyddai o fudd iddynt o ran tynnu sylw at arfer da a chyflawni gwerth am arian.

## 2 Hawliadau refferendwm - cefndir deddfwriaethol

### Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

2.1 Rhydd Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000) y fframwaith cyffredinol ar gyfer cynnal refferenda yn y DU. Mae'n darparu ar gyfer penodi Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol yn Brif Swyddog Cyfrif ar gyfer unrhyw refferendwm a gynhelir ledled y DU. Mae hefyd yn darparu i'r Prif Swyddog Cyfrif benodi Swyddogion Cyfrif ar gyfer pob ardal bleidleisio. Yng Ngogledd Iwerddon, diffinnir y Swyddog Cyfrif ar gyfer refferendwm a gynhelir ledled y DU fel y Prif Swyddog Etholiadol.

2.2 Nodir dyletswyddau cyffredinol Swyddogion Cyfrif yn Adran 128(5) o Ddeddf 2000. Rhaid iddynt ardystio, o fewn yr ardal lle y'u penodwyd, nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd a nifer y pleidleisiau a fwriwyd yn y refferendwm o blaid pob ateb i gwestiwn y refferendwm.

2.3 Nodir dyletswyddau cyffredinol y Prif Swyddog Cyfrif yn Adran 128(6) o Ddeddf 2000. Rhaid i'r Prif Swyddog Cyfrif ardystio, ar gyfer ardal gyfan y refferendwm, nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd a nifer y pleidleisiau a fwriwyd yn y refferendwm o blaid pob ateb i gwestiwn y refferendwm.

2.4 Rhydd Adran 129 o Ddeddf 2000 bwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaethau manwl pellach ar gyfer rheoleiddio'r ffordd y cynhelir refferendwm y mae'r Ddeddf yn gymwys iddo. Rhaid gwneud deddfwriaeth ychwanegol er mwyn cynnal refferendwm.

2.5 Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud y Comisiwn yn gyfrifol am y canlynol:

- rhoi sylwadau ar eiriad cwestiwn y refferendwm
- cofrestru ymgyrchwyr
- dynodi sefydliadau ymgyrchu arweiniol
- rheoleiddio gwariant ar ymgyrchu a rhoddion
- talu grantiau i sefydliadau ymgyrchu arweiniol
- cynnal y bleidlais

### Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015

2.6 Cafodd Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015 Gydsyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr 2015. Rhydd y fframwaith cyfreithiol manwl ar gyfer

cynnal y refferendwm ar aelodaeth barhaus y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Mae darpariaethau Deddf 2000 yn gymwys i'r refferendwm hwn.

2.7 Mae Paragraff 7 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn nodi bod Swyddogion Cyfrif yn gyfrifol am gyfrif y pleidleisiau a fwriwyd yn y refferendwm yn yr ardal lle y'u penodwyd. Mae Paragraff 3 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau i'r rhai a benodwyd yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau penodol ddod yn Swyddog Cyfrif yn y refferendwm heb fod angen i'r Prif Swyddog Cyfrif eu penodi.

2.8 Yn Lloegr, y sawl a benodwyd yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol fydd y Swyddog Cyfrif yn yr ardal bleidleisio honno. Y Swyddog Cyfrif ar gyfer ardal bleidleisio mewn sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru yw'r sawl sy'n Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau cynghorwyr sir neu fwrdeistref sirol.

2.9 Y Swyddog Cyfrif ar gyfer ardal bleidleisio mewn ardal llywodraeth leol yn yr Alban yw'r sawl sy'n Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau cynghorwyr yr ardal llywodraeth leol.

2.10 Swyddog Cyfrif ardal bleidleisio Ynysoedd Scilly yw'r sawl sy'n Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau i Gyngor Ynysoedd Scilly a Swyddog Cyfrif ardal bleidleisio Gibraltar yw Clerc Senedd Gibraltar.

2.11 Y Swyddog Cyfrif ar gyfer ardal bleidleisio Gogledd Iwerddon yw Prif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon.

2.12 Mae Paragraff 7 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn nodi y caiff y Prif Swyddog Cyfrif gyfarwyddo Swyddogion Cyfrif ynghylch cyflawni eu swyddogaethau, ac mae paragraff 7(8) yn nodi: "A person to whom a direction is given under this paragraph must comply with it."

2.13 Mae Atodlen 3 i'r Ddeddf yn darparu bod gan Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol yr hawl i adennill eu taliadau am wasanaethau a ddarparwyd neu daliadau yr aed iddynt mewn perthynas â'r refferendwm gan y Comisiwn.

2.14 Nodir y cyfanswm y gall Swyddog Cyfrif neu Swyddog Cyfrif Rhanbarthol ei adennill am y gwasanaethau a ddarparwyd a'r treuliau yr aed iddynt mewn perthynas â'r refferendwm mewn Gorchymyn ar wahân a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gellir adennill ffioedd a thaliadau ar yr amod bod y gwasanaethau wedi'u darparu o reidwydd neu yr aed i'r treuliau o reidwydd er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

2.15 Hefyd, caiff y Comisiwn, gyda chaniatâd y Trysorlys, awdurdodi talu mwy na'r uchafswm y gellir ei adennill os yw'n fodlon y bu'n rhesymol darparu'r gwasanaethau neu fynd i'r treuliau dan sylw a bod y taliadau amdanynt yn rhesymol.

# Rheoliadau y Refferendwm ar Aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd (Taliadau Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol) 2016

2.16 Gwneir y Gorchymyn Taliadau, sy'n cwmpasu'r DU gyfan a Gibraltar ar gyfer y refferendwm, o dan Atodlen 3 i Ddeddf 2015 ac mae wedi'i strwythuro mewn ffordd debyg i'r Gorchymyn Taliadau ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop yng Nghymru a Lloegr yn 2014 ac etholiad Senedd y DU yn 2015. Mae'r Gorchymyn yn cynnwys atodlenni sy'n rhestru pob ardal bleidleisio ac, wrth ymyl yr ardaloedd hynny, nodir yr uchafsymiau y gall Swyddogion Cyfrif eu hadennill am wasanaethau penodol a ddarparwyd a threuliau penodol yr aed iddynt ar gyfer neu mewn perthynas â'r refferendwm, ynghyd â chyfanswm y ffigurau hyn - yr uchafswm cyffredinol y gellir ei adennill ar gyfer pob ardal bleidleisio.

2.17 Mae'r Gorchymyn Taliadau hefyd yn rhestru'r hyn sy'n gyfystyr â gwasanaethau penodol Swyddog Cyfrif. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal y refferendwm, cyflawni dyletswyddau'r Swyddog Cyfrif yn y refferendwm a gwneud trefniadau ar gyfer y refferendwm. Mae'r Gorchymyn yn pennu uchafswm y gellir ei adennill am wasanaethau sy'n unol â disgrifiad pob awdurdod. O dan baragraff 16 o Atodlen 3 i Ddeddf 2015, mae gan y Comisiwn y pŵer i ostwng neu wrthod talu ffi unrhyw Swyddog Cyfrif os ystyrir na wnaeth ddarparu ei wasanaethau'n ddigonol. Er enghraifft, os bydd Swyddog Cyfrif wedi torri ei ddyletswydd swyddogol neu heb ddilyn cyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif. Nodir gweithdrefn y Comisiwn ar gyfer gwerthuso'r broses o ddarparu gwasanaethau mewn perthynas ag Atodlen 3 i'r Ddeddf ar ein gwefan, ochr yn ochr â'r canllawiau hyn:

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/electoral-administrator/eu-referendum>

2.18 Yn yr un modd, mae'r Gorchymyn Taliadau yn rhestru'r hyn y caiff Swyddog Cyfrif ei hawlio mewn perthynas ag unrhyw un o'r treuliau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys darparu a thalu staff, cynnal y refferendwm a'r cyfrif a'r holl weithgareddau atodol sydd eu hangen er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Swyddog Cyfrif. Unwaith eto, mae'r Gorchymyn yn pennu uchafswm y gellir ei adennill am dreuliau sy'n unol â disgrifiad pob awdurdod.

2.19 Mae'r holl ddeddfwriaeth hon ar gael ar wefan Llywodraeth y DU yn [www.legislation.gov.uk](http://www.legislation.gov.uk)

# Rheoliadau Cyfrifon Swyddogion Cyfrif, Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a Phrif Swyddogion Cyfrif (Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd) 2016

2.20 Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi sut a phryd y mae'n rhaid cyflwyno cyfrifon Swyddogion Cyfrif. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno cyfrifon cyn diwedd 23 Rhagfyr 2016. Maent hefyd yn nodi'r dogfennau i'w cyflwyno gyda'r cyfrifon a ffurf y cyfrifon.

# 3 Gofynion cyfrifyddu

## Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

3.1 Mewn blynyddoedd diweddar mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi dangos diddordeb penodol yn y broses o gyflwyno cyfrifon mewn perthynas â threuliau etholiad. Gan fod rhai Swyddogion Canlyniadau wedi methu â chyflwyno cyfrifon, cyflwynodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol farn amodol ar gyfrifon etholiad rhwng 2002 a 2009. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, ni chafodd yr adroddiadau ar gyfer 2009 i 2013 eu gwneud yn amodol, gan adlewyrchu'r ffaith bod y broses o gyflwyno cyfrifon wedi gwella.

3.2 Os gofynnir iddo wneud hynny gan y Trysorlys, rhaid i'r Comisiwn baratoi cyfrifon sy'n nodi'r gwariant mewn perthynas â'r refferendwm. Prif Weithredwr y Comisiwn yw'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon a'i ddymuniad, er budd y gymuned o weithwyr etholiad proffesiynol ledled y Deyrnas Unedig, yw gallu cyflwyno set ddiamedig o gyfrifon. Felly, rydym am sicrhau bod y cyfrifon a ddarperir gan bob Swyddog Cyfrif nid yn unig yn cyrraedd yn brydlon, ond eu bod hefyd yn adlewyrchu arfer cyfrifyddu gorau. Bwriedir i'r nodiadau hyn ddarparu'r cymorth sydd ei angen i wneud i hynny ddigwydd.

## Gofynion cyffredinol

3.3 Mae'r defnydd o arian cyhoeddus ar gyfer treuliau refferendwm yn gofyn am gyfrifyddu priodol y gellir ei archwilio a chyflwyniad tryloyw. Mae angen cyflwyno dogfennaeth ategol y gellir ei dilysu os oes angen ac sy'n adlewyrchu arfer cyfrifyddu gorau gyda beth bynnag a gaiff ei hawlio. Hyd yn oed os cyflwynir eich cyfrifon yn electronig, bydd angen iddynt gael eu hategu gan gopïau caled o'r ddogfennaeth berthnasol o hyd, yn dibynnu ar b'un a yw'r hawliad yn destun proses cyfrifon clir, cyffyrddiad ysgafn neu graffu llawn. Bydd hefyd angen cyflwyno unrhyw awdurdodiad ar ffurf copi caled (ar wahân i'r ffurflenni electronig ac yn ychwanegol atynt) a sicrhau bod y sawl sydd â'r awdurdod i wneud hynny wedi eu llofnodi.

3.4 **Felly, fe'ch cynghorir i ddarllen y bennod hon yn ofalus er mwyn sicrhau bod eich cyfrifon yn bodloni'r gofynion.** Dylech hefyd sicrhau bod unrhyw un sy'n eich cynorthwyo i gwblhau eich cyfrifon hefyd yn gyfarwydd â chynnwys y canllawiau hyn a'r bennod hon yn arbennig.

## Gofynion penodol

3.5 Rhaid i bob copi caled o gyfrifon a thalebau neu anfonebau ategol gael ei gwblhau **naill ai mewn teipysgrif neu feiro**. Ni ellir defnyddio pensil a chaiff unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd felly eu dychwelyd i'w hailgyflwyno'n gywir.

3.6 **Ni cheir defnyddio deunydd cywiro i newid** cyfrifon a dogfennau ategol. Mae hyn yn arbennig o wir am y ffurflen Crynodeb o Gyfrifon (Ffurflen A), y gofynnir i chi'n bersonol ardystio ei bod yn gywir. Caiff unrhyw ddogfennau nas cwblhawyd yn gywir eu dychwelyd i'w hailgyflwyno.

3.7 Rhaid i bob taliad gael ei ategu, yn ddelfrydol gan gopi caled neu gopi wedi'i sganio o'r anfonebau gwreiddiol a ardystiwyd gan y Swyddog Cyfrif. Efallai y bydd angen cyflwyno'r rhain i'r Uned Hawliadau Etholiadau, yn dibynnu ar ba gategori craffu rydych yn perthyn iddo. Dylai talebau neu anfonebau â'r derbynebau gwreiddiol gael eu casglu gan y Swyddog Cyfrif a dylech sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel. Gall y Comisiwn a/neu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ofyn am y dystiolaeth hon o wariant yn ddiweddarach at ddibenion archwilio.

3.8 Mae Cyllid a Thollau EM bellach yn gofyn am Wybodaeth Amser Real o ran trefniadau staff. O ganlyniad, ni fydd angen cyflwyno talebau unigol (P528au) mwyach er mwyn ategu pob hawliad. Lle mae angen dogfennaeth ategol, bydd yn ddigonol argraffu copïau o system EMS neu systemau tebyg i'w cyflwyno gyda'r ffurflenni treulïau. Dylai'r rhain gael eu llofnodi gan y Swyddog Cyfrif neu Ddirprwy â phwerau llawn os nad yw'r Swyddog Cyfrif ar gael.

3.9 Nid oes angen nodi taliadau staff unigol ar y ffurflen hawlio. Yn hytrach, bydd yn ddigonol nodi'r math o staff a nifer y staff a gyflogwyd ar gyfer tasg benodol yn ogystal â'u ffi a'r cyfanswm cost (e.e. 40 o Glercod Pleidleisio x £[cyfradd berthnasol] = £[cyfanswm]).

3.10 Fodd bynnag, dylech nodi y bydd angen i Swyddogion Cyfrif ddarparu manylion ychwanegol am unrhyw un sydd wedi cael taliadau mewn perthynas â phob un o'r penawdau gwariant, neu dros **£2,500**, a hynny ar Ffurflen L. Rhaid i hyn gynnwys:-

- Dadansoddiad o'r tasgau a gyflawnwyd;
- Y gyfradd y'u talwyd arni;
- Nifer yr oriau a weithiwyd.

Bydd y darpariaethau hyn yn golygu y gellir craffu ar daliadau staff heb fod angen i awdurdodau lleol gyflwyno talebau wedi'u llofnodi ar gyfer pob taliad unigol a dylai leddfau unrhyw bryderon y bydd caniatáu i eitemau heb ddogfennaeth ategol gael eu hadennill yn cynyddu'r risg o wariant annilys neu dwyllodrus. **Ni thelir hawliadau staffio oni ddarperir dadansoddiad.**

3.11 Lle nad oes unrhyw ddogfennau ategol ar gael, dylech hysbysu'r Uned Hawliadau Etholiadau cyn cyflwyno'r hawliad er mwyn egluro'r rheswm dros hynny. Mewn **amgylchiadau eithriadol**, efallai y bydd yr Uned Hawliadau Etholiadau yn barod i dderbyn y canlynol, **a dim ond drwy gytundeb ymlaen llaw:**

- talebau wedi'u llungopiö, ar yr amod bod y Swyddog Cyfrif (neu ddirprwy a awdurdodwyd yn briodol) wedi ardystio eu bod yn gopi gwirioneddol o'r talebau gwreiddiol;
- mantolenni banc gwreiddiol wedi'u croesgyfeirio neu sieciau a dalwyd yn gyfnewid am dderbynebau unigol, ynghyd â disgrifiad o'r gwariant os nad ydynt eisoes yn hunanesboniadol; neu
- lle nad oes modd cael gafael ar y derbynebau gwreiddiol, neu nad ydynt ar gael fel arall, ac nad oes unrhyw un o'r pwyntiau bwled uchod yn gymwys (ond dim ond o dan yr amgylchiadau hynny), datganiad personol gan y Swyddog Cyfrif (neu ddirprwy a awdurdodwyd yn briodol) yn nodi bod y taliadau wedi'u gwneud a bod y ffigurau'n gywir. **Dylech nodi bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi ailddatgan mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid gwneud datganiadau personol a byddem yn disgwyl i chi wneud pob ymdrech ymlaen llaw i gael gafael ar y ddogfennaeth ategol wreiddiol. Os bydd hawliad yn cynnwys nifer o ddatganiadau personol byddwn yn gofyn cwestiynau am yr hyn a gyflwynwyd gennych ac yn eich herio i wneud ymdrechion pellach i gael gafael ar ddogfennaeth ategol cyn y gellir cytuno ar eich hawliad. Mae'r broses hon yn debygol o beri oedi difrifol i dalu unrhyw falans sy'n ddyledus.**

3.12 Rydym hefyd yn cadw'r hawl i wrthod talu unrhyw ran o'ch hawliad lle na ellir rhoi esboniad rhesymol dros absenoldeb deunydd ategol.

3.13 Rhaid i bob taleb ac anfoneb gael eu rhifo'n glir er mwyn dangos sut maent yn ymwneud â'r cofnodion ar y ffurflenni eglurhaol neu'r cyfrifon electronig, ac yn y drefn y'u dangosir ar y ffurflenni neu'r cyfrifon hynny.

3.14 Lle bydd taleb neu anfoneb yn cwmpasu sawl eitem o wariant ar gyfer gwahanol benawdau cyfrifon, rhaid i'r ddogfen (pan fydd ei hangen fel tystiolaeth ategol) fod wedi'i lleoli lle mae'r eitem gyntaf yn ymddangos ar y ffurflen eglurhaol. Yna, gall eitemau dilynol gael eu rhestru ar y ffurflen briodol a'u croesgyfeirio â'r ymddangosiad cyntaf hwnnw, neu gellir lleoli llungopi wedi'i groesgyfeirio'n briodol. Dylai cyfrifon electronig groesgyfeirio â'r ddogfennaeth ategol berthnasol.

3.15 Os na fyddwch yn siŵr beth i'w wneud mewn achos penodol, bydd yr Uned Hawliadau Etholiadau yn fwy na pharod i'ch cynghori. Mae'n well gofyn ymlaen llaw yn hytrach na gwneud penderfyniad a allai arwain at wrthod rhan o'ch hawliad, os nad i gyd, yn ddiweddarach.

## Archwilio eich cyfrifon

3.16 Mae'r defnydd o arian cyhoeddus ar gyfer treuliau refferendwm yn gofyn am gyfrifyddu priodol y gellir ei archwilio a chyflwyniad tryloyw. Mae angen cyflwyno dogfennaeth ategol y gellir ei dilysu os oes angen ac sy'n



adlewyrchu arfer cyfrifyddu gorau gyda beth bynnag a gaiff ei hawlio. Efallai y bydd rhai Swyddogion Cyfrif yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfrifyddu, archwilio neu gadw cofnodion proffesiynol a/neu gyngor gan eu hawdurdod lleol. Er ein bod yn cydnabod, at y dibenion hyn, eich bod yn gweithredu y tu hwnt i awdurdodaeth yr awdurdod lleol at ddibenion cynnal y refferendwm ac nad oes gan gyfrifwyr nac archwilwyr mewnol awdurdodau lleol rôl swyddogol mewn perthynas â'r materion hyn, efallai y gallant helpu i wirio neu reoli ansawdd eich cyfrifon. Efallai y gall cyfrifwyr neu archwilwyr proffesiynol - hyd yn oed os nad ydynt yn arbenigo ym maes cyfrifon etholiadol - eich helpu drwy gynghori ar safonau cyfrifyddu a dderbynnir, tynnu sylw at ddiffygion, ac awgrymu gwelliannau o ran cyflwyno eich cyfrifon.

3.17 Er ein bod yn cydnabod mai eich penderfyniad chi, fel Swyddog Cyfrif, yw hyn argymhellwn, fel arfer da, eich bod yn cynnwys rhywun annibynnol â chymwysterau addas, fel cyfrifydd neu archwilydd proffesiynol, wrth naill ai baratoi neu reoli ansawdd eich cyfrifon er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau cyfrifyddu gofynnol. Dylai hyn helpu i leihau nifer yr ymholiadau dilynol gan yr Uned Hawliadau Etholiadau gymaint â phosibl.

3.18 Nid oes lwfans penodol ar gyfer llyfrifwr mewnol yn y dyraniad. Fodd bynnag, gwnawn ystyried talu costau rhesymol defnyddio llyfrifwr o dan Bennawd J4 (Costau deunyddiau a gwasanaethau) ar yr amod eu bod yn rhesymol ac o fewn yr uchafswm cyffredinol y gellir ei adennill gennyh.

3.19 Cynghorir Swyddogion Cyfrif yn gryf i agor cyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu ar wahân ar gyfer eu blaensymiau cychwynnol a gwariant dilynol ar y refferendwm. Bydd hyn yn sicrhau y cedwir arian ar wahân i arian awdurdod lleol a bod modd rhoi cyfrif am y gwariant yn hawdd. Bydd hefyd yn sicrhau bod llinellau atebolrwydd a chyfrifoldeb yn glir ac mai dim ond staff a awdurdodwyd yn uniongyrchol gan y Swyddog Cyfrif a gaiff ymwneud â'r cyfrifon.

3.20 Os gwneir trefniadau eraill (fel defnyddio cyfrif banc awdurdod lleol), dylai Swyddogion Cyfrif sicrhau bod arian yn cael ei wahanu'n addas a bod atebolrwydd clir.

3.21 Argymhellwn gadw blaensymiau mewn cyfrifon sy'n ennill llog. Rhaid i unrhyw log a gaiff Swyddog Cyfrif ar gyfrif banc a agorir at ddibenion y refferendwm gael ei ddychwelyd i'r Uned Hawliadau Etholiadau pan gyflwynir eich hawliad.

# 4 Swyddogion Cyfrif

## Rhanbarthol, Swyddogion Cyfrif Lleol a dirprwyon

4.1 Yn y refferendwm Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol yw'r Prif Swyddog Cyfrif. Yn ei dro, mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi penodi Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol i helpu i drefnu'r refferendwm ym mhob un o ranbarthau Senedd Ewrop y DU, ar wahân i Ogledd Iwerddon lle ceir un Swyddog Cyfrif. Hefyd, mae gan bob ardal gyfrif unigol o fewn y rhanbarthau Swyddog Cyfrif.

4.2 Mae pob math o swyddog yn cyflawni swyddogaethau gwahanol ac felly mae ganddo gyfrifoldebau gwario a chyfrifyddu gwahanol. Crynhoir y rhain isod. Mae penodau dilynol yn ymdrin â'r gofynion manwl o dan y pennawd gwariant priodol. Oni nodir fel arall, neu fod y cyd-destun yn ei gwneud yn ofynnol, bydd y term "Swyddog Cyfrif" yn cyfeirio at rolau Swyddog Cyfrif Rhanbarthol a Swyddog Cyfrif drwy gydol y canllawiau hyn.

## Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol

4.3 Mae rôl y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol yn cynnwys cynllunio a chydlynu ar lefel ranbarthol, rheoli'r broses o goladu cyfansymiau cyfrif rhanbarthol a hysbysu'r Prif Swyddog Cyfrif am y cyfansymiau hynny.

4.4 Gall Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol adennill eu taliadau am wasanaethau a ddarparwyd o reidrwydd a threuliau yr aed iddynt o reidrwydd er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Mae'r Gorchymyn Taliadau yn rhestru'r gwasanaethau penodol ac yn nodi'r uchafswm y gellir ei adennill am y gwasanaethau hynny. Yn yr un modd, mae'n rhestru'r treuliau penodol a'r uchafswm y gellir ei adennill am y treuliau hyn. Cyfanswm y ddau swm hyn yw'r uchafswm cyffredinol y gellir ei adennill gan Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol.

4.5 Mae Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol ond yn gyfrifol am baratoi a chyflwyno'r cyfrifon ar gyfer eu gweithgareddau eu hunain. **Nid** ydynt yn gyfrifol am baratoi a chyflwyno cyfrifon ar gyfer pob Swyddog Cyfrif yn eu rhanbarth, er y byddant hefyd yn Swyddogion Cyfrif yn eu rhinwedd eu hunain, a bydd angen iddynt baratoi a chyflwyno cyfrifon ar wahân ar gyfer eu gweithgareddau fel Swyddog Cyfrif.

# Swyddogion Cyfrif

4.6 Mae rôl Swyddog Cyfrif yn cynnwys rheoli'r broses o gynnal y bleidlais yn ei ardal leol, cyfrif y pleidleisiau a throsglwyddo cyfansymiau'r ardal leol i'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol.

4.7 Gall Swyddogion Cyfrif adennill eu taliadau am wasanaethau a ddarparwyd o reidrwydd a threuliau yr aed iddynt o reidrwydd ar gyfer y refferendwm neu mewn perthynas ag ef. Mae'r Gorchymyn Taliadau yn rhestru'r gwasanaethau penodol ac yn nodi'r uchafswm y gellir ei adennill am y gwasanaethau hynny. Yn yr un modd, mae'n rhestru'r treuliau penodol a'r uchafswm y gellir ei adennill am y treuliau hyn. Cyfanswm y ddau swm hyn yw'r uchafswm cyffredinol y gellir ei adennill gan Swyddogion Cyfrif.

4.8 Mae Swyddogion Cyfrif yn gyfrifol am baratoi a chyflwyno'r cyfrifon ar gyfer eu gweithgareddau eu hunain.

## Dirprwyon a llofnodwyr awdurdodedig

4.9 Rydym yn cydnabod y gall Swyddogion Cyfrif fod am benodi dirprwyon i weithredu ar eu rhan. Felly, darperir ar gyfer penodi dirprwyon a all hefyd gael pwerau dirprwyedig i lofnodi dogfennau yn lle ac ar ran Swyddogion Cyfrif, os na fyddant ar gael. Cyfeirir at ddirprwyon sy'n gyfrifol am gyflawni holl ddyletswyddau Swyddogion Cyfrif fel "dirprwyon â phwerau llawn". Gall dirprwyon eraill gael pwerau cyfyngedig i fod yn gyfrifol am feysydd neu swyddogaethau a nodwyd yn benodol.

4.10 Bydd yr Uned Hawliadau Etholiadau yn derbyn dogfennau a lofnodwyd gan ddirprwyon **dim ond** lle mae wedi cael gwybod pwy ydynt ymlaen llaw, wedi cael enghreifftiau o'u llofnodion y gellir cymharu llofnodion dilynol â hwy, ac wedi cael copi o'u llythyr penodi a lofnodwyd gan y Swyddog Cyfrif perthnasol. Mae Ffurflen B ar gael at y diben hwn.

4.11 Yn gyffredinol, mae'n well cyfyngu ar y defnydd o ddirprwyon o'r fath, o ran swyddogaeth a nifer. Lle bynnag y bo modd, dylai'r Swyddog Cyfrif perthnasol lofnodi dogfennau'n bersonol. Dim ond pan fo'n gwbl hanfodol y dylid defnyddio pwerau dirprwyedig i lofnodi dogfennau. Ni ddylai fod angen penodi nifer fawr o ddirprwyon ar y tro. Hefyd, dylai eu swyddogaethau penodol a graddau'r ddirprwyaeth fod yn glir pan y'u penodir. Mae hyn nid yn unig yn sicrhau bod Swyddogion Cyfrif yn chwarae rhan lawn yn y broses o baratoi a chyflwyno eu cyfrifon ac yn ymwybodol o'u hynt a'u cynnwys, ond mae hefyd yn pennu llwybr archwilio clir y gellir ei ddilysu yn ôl i'r awdurdod cyfrifol ac mae'n lleihau'r risg o gamddealltwriaeth.

4.12 Nid oes ffi benodol ar gyfer Dirprwy Swyddogion Cyfrif. Tynnodd adolygiad o gyllid Swyddfa'r Cabinet sylw at sawl achos lle cyflwynwyd hawliad mewn perthynas â "ffioedd DSC". **Noder nad oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer hyn yn y Gorchymyn Taliadau nac mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall.**

4.13 Gall Swyddogion Cyfrif ddyrannu peth o'u ffioedd, os nad i gyd, i ddirprwyon, ond ni chânt unrhyw gyfraniad pellach y tu hwnt i'r swm hwn ar gyfer rhoi ffi i ddirprwyon.

## 5 Blaensymiau cychwynnol a phellach

### Telerau blaensymiau

5.1 Mae Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015 yn caniatáu i'r Comisiwn wneud blaensymiau i Swyddogion Cyfrif ar y fath delerau ag sy'n briodol yn ei farn ef i dalu costau'r refferendwm. Mae'r paragraffau canlynol yn nodi ar ba delerau y bydd y Comisiwn yn gwneud blaensymiau.

### Blaenswm cychwynnol

5.2 Gwneir blaensymiau cychwynnol i Swyddogion Cyfrif cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Gorchymyn Taliadau ddod i rym. **Rhaid bod pob Swyddog Cyfrif wedi rhoi manylion y cyfrif banc y dylid gwneud blaensymiau iddo i'r Comisiwn.** Mae Ffurflen C ar gael at y diben hwn. Dylid rhoi gwybod i'r Comisiwn am unrhyw newidiadau i fanylion cyfrif banc gan ddefnyddio Ffurflen C unwaith eto.

5.3 Gwneir taliadau'n uniongyrchol i'r cyfrif banc a nodwyd ac nid oes angen cydnabod eu derbyn. Rhaid i'r Swyddog Cyfrif perthnasol lofnodi Ffurflen C er mwyn cadarnhau ei fod wedi darllen a derbyn y telerau y gwnaed y blaenswm arnynt. Mae'r telerau hyn fel a ganlyn:

- bydd y Swyddog Cyfrif yn rhoi cyfrif priodol a phrydlon am unrhyw blaensymiau;
- bydd y Swyddog Cyfrif yn ad-dalu unrhyw arian na chaiff ei wario a roddwyd iddo ar ffurf blaenswm;
- bydd y Swyddog Cyfrif yn defnyddio unrhyw blaensymiau yn unol â'r darpariaethau yn y Gorchymyn Taliadau yn unig;
- mae'r Swyddog Cyfrif wedi darllen a deall y mesurau cydymffurfio a'r sancsiynau posibl a all gael eu rhoi ar waith.

5.4 Bydd y blaenswm cychwynnol yn cyfateb i **75% o'r uchafswm y gellir ei adennill** a nodir yn y Gorchymyn Taliadau o ran **treuliau** Swyddog Cyfrif ym mhob ardal gyfrif.

5.5 Yn yr achos hwn, telir am **wasanaethau** Swyddog Cyfrif mewn dwy ran. Telir 75% o'r ffi ar ôl y diwrnod pleidleisio yn yr wythnos sy'n dechrau 27

Mehefin 2016 a thelir y 25% sy'n weddill ar ôl i gyfrifon gael eu cyflwyno a'u cadarnhau.

## Blaensymiau pellach

5.6 Fel mewn digwyddiadau etholiadol blaenorol, darparwyd ar gyfer blaensymiau pellach ar gyfer y Swyddogion Cyfrif hynny sy'n wynebu costau uwch annisgwyl na ellir eu hadennill drwy'r blaenswm cychwynnol. Dim ond pan gyflwynir cais arbennig a thystiolaeth ategol y gwneir blaensymiau pellach o'r fath. Bydd angen cyflwyno tystiolaeth o angen pellach, er enghraifft dadansoddiad o'r costau a'r taliadau a wnaed hyd yn hyn a chopïau o'r anfonebau sydd angen eu talu ynghyd ag esboniad o'r angen am flaenswm pellach.

5.7 Felly, bydd blaenswm pellach o 15%, hyd at uchafswm o 90%, o'r uchafswm cyffredinol y gellir ei adennill am dreuliau a gyhoeddwyd yn y Gorchymyn Taliadau ar gael i'r rhai a all fod ei angen. Fodd bynnag, **ni ellir defnyddio blaenswm pellach i hawlio am falans sy'n weddill eich gwariant gwirioneddol ar y bleidlais.** Er mwyn i'ch hawliad gael ei setlo'n llawn rhaid i chi gyflwyno eich cyfrif.

5.8 Mae Ffurflen D ar gael at ddiben gwneud cais am flaenswm pellach. Mae'n gofyn i chi gadarnhau eich bod wedi darllen a deall y canllawiau hyn a'r amodau sy'n sail i wneud blaensymiau. Bydd y Comisiwn yn cydweithio â'r Uned Hawliadau Etholiadau ac yn sicrhau yr ymdrinnir yn brydlon â cheisiadau am flaensymiau pellach, ar yr amod ei fod wedi cael gwybod bod y cais wedi'i gyflwyno, a bod y ddogfennaeth ategol gywir yn cyd-fynd ag ef.

5.9 Ni fydd unrhyw Swyddog Cyfrif yn cael mwy na 90% o'r cyfanswm am dreuliau a nodir yn y Gorchymyn Taliadau mewn blaensymiau. Ni chaiff balans a all fod yn ddyledus ar ôl ystyried blaensymiau cychwynnol a phellach ei setlo nes i'r cyfrifon ddod i law, y creffir arnynt ac yr atebir unrhyw gwestiynau'n foddhaol.

5.10 Hefyd, ni wneir unrhyw flaensymiau pellach i unrhyw Swyddog Cyfrif am geisiadau a wneir fwy na mis ar ôl dyddiad y refferendwm, h.y. a wneir ar neu ar ôl 24 Gorffennaf 2016. Os bydd angen mwy o arian ar y cam hwn, dylid gwneud yr hawliad llawn fel y gellir setlo'r cyfrif a thalu'r balans sy'n ddyledus. Dylai'r Uned Hawliadau Etholiadau gael gwybod am unrhyw anfonebau nas talwyd sy'n weddill.

## Defnyddio blaensymiau

5.11 Ni ddylid defnyddio blaensymiau a wneir ar gyfer refferendwm y DU er mwyn gwrthbwyso taliadau o ran unrhyw etholiadau eraill, fel etholiadau lleol. Dim ond ar gyfer treuliau sy'n gysylltiedig â refferendwm y DU ei hun y dylid eu defnyddio.

# 6 Gwneud hawliad

## Terfynau amser

6.1 Rhydd Deddf 2015 y pŵer i'r Comisiwn wneud rheoliadau sy'n nodi sut a phryd y dylid cyflwyno cyfrifon. Rydym wedi penderfynu bod yn rhaid i gyfrifon gael eu cyflwyno erbyn diwedd 23 Rhagfyr 2016. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 1.11, anogir Swyddogion Cyfrif sy'n perthyn i gategoriâu craffu "Cyfrifon Clir" a "Cyffyrddiad Ysgafn" gyflwyno eu cyfrifon ymhell cyn y dyddiad hwnnw.

6.2 Y rhesymau dros y dyddiad cau hwn yw:

- Mae'n arfer da rhoi cyfrif am wariant yn brydlon, cyn i bethau fynd yn angof a bod tystiolaeth i ategu hawliadau wrth law yn haws fel arfer;
- Mae'n sicrhau y gellir rhoi cyfrif priodol am arian cyhoeddus a bod tystiolaeth ategol ar gael i'w harchwilio o fewn cyfnod rhesymol, tra'n rhoi digon o amser i'r rhai sy'n gyfrifol am eu cwblhau wneud hynny;
- Mae'n golygu y gellir dysgu gwersi a gwneud addasiadau cyn y rownd nesaf o ddigwyddiadau etholiadol;
- Mae'n helpu i sicrhau bod y broses gyfan yn agored ac yn dryloyw ac mae'n rhoi'r cyfle i'r cyhoedd a Senedd y DU gael sicrwydd bod y refferendwm wedi'i gynnal a'i ariannu'n gywir.

6.3 Bydd methu'r dyddiad cau ar gyfer eu cyflwyno yn golygu na chaiff y nodau hyn eu cyflawni. Yn arbennig, ni all cyfrifon cyffredinol y refferendwm y mae gan y Comisiwn gyfrifoldeb statudol i'w paratoi a'u cyflwyno gael eu cwblhau'n llawn. Nid yw'r Comisiwn am fod mewn sefyllfa lle mae'n rhaid gwneud y cyfrifon yn amodol am fod Swyddogion Cyfrif wedi eu cyflwyno'n hwyr a bod yn rhaid hysbysu'r Senedd o hyn.

6.4 Anfonir negeseuon atgoffa at Swyddogion Cyfrif drwy'r Uned Hawliadau Etholiadau yn rheolaidd cyn y dyddiad cau yn eu hysbysu bod angen iddynt anfon eu cyfrifon ac yn eu rhybuddio o ganlyniadau methu â gwneud hyn ar amser. Rhoddir pob cyfle iddynt gydymffurfio mewn modd amserol a phriodol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, byddwn yn gwrthod ystyried hawliadau neu gyfrifon sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau.

6.5 Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes rhaid i Swyddogion Cyfrif roi cyfrif am eu gwariant. Bydd angen cyflwyno cyfrifon o hyd, hyd yn oed os

methwyd y dyddiad cau a hyd yn oed os nad oes unrhyw arian yn ddyledus ar y naill ochr na'r llall. Ceisir cyfrifon gan Swyddogion Cyfrif hyd nes eu bod yn dod i law.

6.6 Hefyd, atgoffir Swyddogion Cyfrif na fydd y Comisiwn yn talu'r 25% sy'n weddill o'r uchafswm cyffredinol am eu gwasanaethau nes i'r cyfrifon terfynol gael eu clirio.

## Cyfrifon anghyflawn

6.7 Os na fyddwch yn credu y gallwch gwblhau eich cyfrifon ar amser am unrhyw reswm, rhaid i chi gysylltu â'r Uned Hawliadau Etholiadau cyn gynted â phosibl gan egluro'r amgylchiadau a chael cyngor.

6.8 Os bydd gan y Swyddog Cyfrif reswm dilys gall wneud cais i'r Uned Hawliadau Etholiadau i ymestyn y cyfnod ar gyfer cyflwyno'r cyfrif cyfan. Ni ellir cyflwyno cyfrif anghyflawn mwyach. Fodd bynnag, rhaid i'r Swyddog Cyfrif wneud hyn o leiaf bythefnos cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cyfrifon yn derfynol, h.y. erbyn 9 Rhagfyr 2016. Bydd angen i'r Swyddog Cyfrif roi'r rheswm dros yr oedi a'r dyddiad y disgwyli'r cyflwyno'r cyfrifon.

6.9 Mater i'r Swyddog Cyfrifyddu fydd penderfynu a yw'r rheswm dros yr oedi yn foddhaol ac a yw'r dyddiad arfaethedig ar gyfer cyflwyno cyfrifon wedi'u cwblhau yn rhesymol. Gall ofyn i gyfrifon wedi'u cwblhau gael eu cyflwyno'n gynharach os nad yw'n fodlon ar y rhesymau.

6.10 Os bydd Swyddog Cyfrif yn methu â chyflwyno cyfrif erbyn y dyddiad cau neu unrhyw estyniad y cytunwyd arno, bydd y Comisiwn yn ystyried na roddwyd cyfrif am yr arian a gall ei gwneud yn ofynnol i ddychwelyd y blaenswm llawn ar unwaith.

## Cyfuno Darpariaethau

6.11 Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth i unrhyw ddigwyddiad etholiadol arall gael ei gyfuno â phleidlais y refferendwm. Os bydd Swyddog Cyfrif yn penderfynu bod angen cynnal pleidlais arall ar yr un diwrnod â'r refferendwm yn yr ardal gyfan, neu ran ohoni, yna cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrif/ Canlyniadau perthnasol fydd costau'r fath pleidlais ac ni ellir eu cynnwys mewn hawliad ar gyfer y refferendwm.

## Math o hawliad

6.12 Er mwyn helpu i asesu hawliadau a pharatoi cyfrifon, datblygwyd cyfres o ffurflenni. Mae'r rhain yn seiliedig ar y ffurflenni a ddefnyddiwyd yn etholiadau diwethaf Senedd Ewrop a Senedd y DU. Mae'r ffurflenni ar gael yn electronig gan yr Uned Hawliadau Etholiadau neu ar ein gwefan yn:

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/electoral-administrator/eu-referendum>

Bydd angen cyflwyno Ffurflenni A, B, C a D ar ffurf copi caled gan fod angen y llofnodion gwreiddiol. Bydd angen dogfennau ategol ychwanegol ar rai o'r ffurflenni hyn sy'n rhestru'r symiau manwl a wariwyd, yn ogystal ag anfonebau neu dalebau gwreiddiol fel tystiolaeth yn dibynnu ar y categori craffu.

6.13 Mae'r ffurflenni fel a ganlyn:

- Ffurflen A - Crynodeb o gyfrifon (angen copi caled)
- Ffurflen B - Penodi dirprwyon â phwerau llawn (angen copi caled)
- Ffurflen C - Manylion cyfrif banc (angen copi caled)
- Ffurflen D - Cais am flaenswm pellach (angen copi caled)
- Ffurflen E - Gwasanaethau Swyddogion Cyfrif
- Ffurflen F - Costau gorsafoedd pleidleisio
- Ffurflen G - Costau pleidleisiau post
- Ffurflen H - Costau cardiau pleidleisio
- Ffurflen I - Costau cyfrif
- Ffurflen J - Costau eraill
- Ffurflen L - Tryloywder costau staff
- Ffurflen M - Cofnod o gyfarpar

6.14 Bydd angen i Swyddogion Cyfrif gwblhau un set o ffurflenni ar gyfer pob ardal gyfrif y maent yn gyfrifol amdani. Rhaid cwblhau pob ffurflen, ar wahân i ffurflen B (penodi dirprwyon) a ffurflen D (cais am flaenswm pellach), sydd ond yn angenrheidiol at y dibenion penodol hynny, a Ffurflen M. Defnyddir Ffurflen M ar gyfer rhoi gwybodaeth gyd-destunol yn unig i Swyddfa'r Cabinet yn ymwneud â phrynu cyfarpar mewn blynyddoedd blaenorol, ac nid yw'n gymwys i Swyddogion Cyfrif yn yr Alban, Gogledd Iwerddon na Gibraltar. Rhoddir gwybodaeth am gwblhau'r ffurflenni ym mhenodau perthnasol y canllawiau hyn.

## Gorwariant a thanwariant

6.15 Rhaid pwysleisio mai'r ffigur ar gyfer treuliau yn y Gorchymyn Taliadau yw'r **uchafswm y gellir ei adennill**. Mae hynny'n golygu na ddylech ddisgwyl gwario'r holl arian a ddyrannwyd yn awtomatig. Ym marn y Comisiwn, mae'n cynrychioli swm rhesymol ar gyfer cynnal y refferendwm. Dylech wneud pob ymdrech i gyfyngu ar eich gwariant a rhaid i chi ond wario ar yr hyn sydd ei angen er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

6.16 Mae'r system gyllido bellach yn rhoi'r hyblygrwydd i chi reoli'r swm a gaiff ei neilltuo a rhoi cyfrif amdano'n briodol. Felly, disgwylwch i'r hyblygrwydd hwn gynnig cyfleoedd i gyflawni gwerth am arian lle bo modd.

6.17 Serch hynny, rydym hefyd yn cydnabod y gall fod adegau pan fydd rhai swyddogaethau yn costio llawer iawn mwy na'r disgwyl, oherwydd argyfwng neu amgylchiadau arbennig. Er enghraifft, gallai fod angen cynnal sawl ailgyfrif neu gallai fod rhybudd diogelwch annisgwyl sy'n gofyn am fwy o



staff neu gyfarpar arbennig ar fyr rybudd. Lle na ellir osgoi'r costau ychwanegol hyn a'u bod yn annisgwyl **ac** yn amlwg yn angenrheidiol er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, ac na all y costau hyn gael eu gwrthbwysu drwy leihau costau eraill, mae'r hyblygrwydd gennym i ystyried darparu cyllid ychwanegol. Mae gennym y disgresiwn i awdurdodi talu mwy na'r uchafswm cyffredinol y gellir ei adennill mewn achos penodol, ond dim ond os oedd yn rhesymol i'r Swyddog Cyfrif fynd i'r gwariant, a bod y taliadau eu hunain yn rhesymol. **Ni ddylech dybio y defnyddiwn ein disgresiwn yn awtomatig ar gyfer pob achos o orwariant.**

6.18 Ni fyddem yn disgwyl i Swyddogion Cyfrif hysbysu'r Uned Hawliadau Etholiadau am unrhyw danwariant a ragwelir. Bydd y cyfrifon yn datgelu'r manylion pan gânt eu cyflwyno.

6.19 Os bydd amgylchiadau arbennig a allai ofyn am gyllid ychwanegol yn eich barn chi, dylech wneud y Comisiwn yn ymwybodol o hyn **cyn gynted â phosibl**, yn ddelfrydol cyn mynd i'r gwariant, ond os nad oes modd gwneud hynny, cyn gynted ag y bo'n rhesymol.

6.20 Os bydd achos o wariant argyfwng na roddir gwybod amdano ymlaen llaw neu cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad, cadwn yr hawl i wrthod ei ad-dalu.

## Cyflwyno eich hawliad

6.21 Mae fersiynau electronig o'r ffurflenni ar gael gan yr Uned Hawliadau Etholiadau, ac ar ein gwefan, a dylid eu defnyddio i gyflwyno eich hawliad. Dim ond os na ellir defnyddio'r fformat hwnnw y dylid cyflwyno fersiynau papur, copi caled.

6.22 Dylai cyfrifon gael eu cyflwyno i'r Uned Hawliadau Etholiadau erbyn y dyddiad cau drwy e-bost a/neu yn y post. Bydd yr Uned Hawliadau Etholiadau yn cydnabod ei bod wedi cael eich cyfrifon o fewn pum diwrnod gwaith.

6.23 Os na chewch gydnabyddiaeth o fewn y cyfnod hwnnw, dylech sicrhau bod y neges neu'r cyfrifon wedi cyrraedd yn ddiogel. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu cyflwyno - ni ddylech dybio eu bod wedi cyrraedd heb gydnabyddiaeth.

## Cadarnhau eich hawliad a'r broses gysoni

6.24 Fel rheol, bydd yr Uned Hawliadau Etholiadau yn archwilio'r cyfrifon a gyflwynir yn y drefn y maent yn dod i law a chyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn cadw'r hawl i flaenoriaethu archwilio cyfrifon y Swyddogion Cyfrif hynny sy'n peri'r risg fwyaf yn ei farn ef. Hefyd, mae'n debygol y bydd adegau pan gyflwynir nifer fawr o

hawliadau ar yr un pryd felly gall fod oedi wrth eu prosesu ar adegau fel hyn. Ar ôl cydnabod bod eich hawliad wedi'i gyflwyno, bydd yr Uned Hawliadau Etholiadau yn gallu rhoi gwybod i chi pa mor hir y mae'n debygol o gymryd i'w brosesu, ar sail y nifer a gafwyd ac sy'n weddill ar y pryd. Bydd y Comisiwn yn monitro'r broses o ran unrhyw oedi.

6.25 Creffir ar gyfrifon yn ofalus er mwyn sicrhau bod digon o dystiolaeth o daliadau yn eu hategu, ac er mwyn nodi unrhyw anghysonderau ac unrhyw daliadau eithriadol neu anarferol. Bydd angen i ni gadarnhau bod taliadau wedi'u gwneud mewn gwirionedd; eu bod wedi'u gwneud at y dibenion cywir; a bod y symiau a dalwyd yn rhesymol a dim ond yn angenrheidiol er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

6.26 Wrth gwrs, bydd rhywfaint o hyblygrwydd ar gael a ganiateir drwy'r defnydd o'r system. Ond lle bydd costau swyddogaethau yn ymddangos yn sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r cyfartaledd ac nad oes esboniad dros hynny, byddwn yn ceisio gwybodaeth bellach er mwyn nodi'r rheswm. **Felly mae'n ddefnyddiol cynnwys unrhyw esboniad o amrywiadau sylweddol yn eich hawliad.**

6.27 Lle mae'r Uned Hawliadau Etholiadau yn gofyn i chi roi rhagor o wybodaeth, byddem yn disgwyl i chi ymateb o fewn pum diwrnod gwaith i'r cais hwnnw. Bydd hyn yn ein galluogi i setlo hawliadau yn yr amser lleiaf posibl.

6.28 Anogir Swyddogion Cyfrif sy'n perthyn i'r categorïau "Cyfrifon Clir" a "Cyffyrddiad Ysgafn" gyflwyno eu cyfrifon mor gynnar â phosibl. Mae llai o waith i'w wneud o ran darparu dogfennaeth ategol ar gyfer yr hawliadau hyn a drwy eu setlo'n gynnar gellir ymdrin â mwy o hawliadau cyflawn a ddaw i law yn hwyrach mewn modd mwy amserol.

6.29 Ar ôl i'r cyfrifon gael eu setlo, bydd y Comisiwn, yr Uned Hawliadau Etholiadau a Llywodraeth y DU yn astudio'r ffigurau er mwyn helpu i lywio'r broses o ariannu pleidleisiau yn y dyfodol a bydd yn sail i ddiwygio'r cyfrifiadau lle bo angen. Lle nodir anghysonderau neu daliadau eithriadol, efallai y byddwn am gysylltu â Swyddogion Cyfrif i gael rhagor o wybodaeth, Felly, dylech fod yn barod i wneud hynny, ar gais.

6.30 Pan fydd y cyfrifon wedi'u clirio, bydd y Comisiwn yn trefnu i unrhyw daliadau cysoni am dreuliau gael eu gwneud, naill ai drwy ofyn i Swyddogion Cyfrif ad-dalu arian, neu drwy drefnu i dalu beth bynnag sy'n ddyledus iddynt ar ôl didynnu unrhyw flaensymiau. Gwneir taliad terfynol hefyd am y balans o ffioedd sy'n daladwy am wasanaethau Swyddogion Cyfrif. Gwneir taliadau'n uniongyrchol i'r cyfrif banc a nodwyd o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl i'r Uned Hawliadau Etholiadau glirio'r cyfrifon ac i'r Comisiwn gael gwybod, ac ni fydd angen cydnabod hynny.

## 7 Craffu ar gyfrifon

7.1 Cyn etholiad Senedd Ewrop 2014, roedd yn rhaid cyflwyno pob hawliad gyda'r holl dystiolaeth ategol mewn perthynas â gwariant ar yr etholiad. Yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn 2013, dangosodd y canfyddiadau fod y rhan fwyaf o Swyddogion Canlyniadau yn teimlo bod hyn yn ormod o waith a bod iddo oblygiadau o ran cost ac amser mewn perthynas â phawb a oedd yn ymwneud â'r broses hawlio.

7.2 Mabwysiadodd y model newydd, a gyflwynwyd yn 2014, dair lefel graffu:

- **Cyfrifon clir**
- **Cyffyrddiad ysgafn**
- **Craffu llawn**

7.3 Mae'r tabl isod yn nodi'r hyn sydd ei angen ar gyfer pob categori craffu. Byddwn yn dewis y categori y rhoddir Swyddog Cyfrif ynddo ar sail risg, er yr ategir hyn gan system hapddewis. Fodd bynnag, cadwn yr hawl i newid y categorïau yn sgil unrhyw gasgliadau ac argymhellion gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar y fethodoleg ddiwygiedig.

Categori	Ffurflen Hawlio	Tystiolaeth ar gyfer POB pryniant	Tystiolaeth o Argraffu	Tystiolaeth ar gyfer talu staff	Tystiolaeth ar gyfer taliadau ≥ £2,500	Anfoneb meddalwedd / trwydded TG	% yr Hawliadau yn y categori hwn
Cyfrifon Clir	✓	✗	✗	✗	✓	✓	20%
Cyffyrddiad Ysgafn	✓	✗	✓	✓	✓	✓	60%
Craffu Llawn	✓	✓	✓	✓	✓	✓	20%

7.4 Er na fydd angen i'r rhan fwyaf o Swyddogion Cyfrif gyflwyno dystiolaeth ychwanegol i ategu eu hawliad, dylai pob Swyddog Cyfrif gadw pob anfoneb a darn o dystiolaeth at ddibenion archwilio am chwe blynedd. Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn dewis sampl o Swyddogion Cyfrif ar hap ym mhob categori er mwyn cynnal archwiliad.

7.5 Efallai y bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ymweld â nifer o Swyddogion Cyfrif yn y categori Cyfrifon Clir fel rhan o'i harchwiliad. Y rhesymeg dros hyn yw y gall fod angen cynnal archwiliadau pellach er mwyn sicrhau bod Swyddogion Cyfrif yn casglu ac yn cadw'r holl dystiolaeth, er nad oes angen iddynt gyflwyno hyn fel rhan o'u hawliad, er mwyn sicrhau bod modd cefnogi a chyfiawnhau'r holl wariant â thystiolaeth.

7.6 Ar gyfer **CYFRIFON CLIR** bydd angen i Swyddogion Cyfrif roi cyfrif am eu holl wariant (o dan bob pennawd gwariant). Fodd bynnag, **ni** fydd angen iddynt gyflwyno unrhyw dalebau, anfonebau na derbynebau ar wahân i:

- anfonebau meddalwedd / trwydded TG;
- Taliadau sengl o £2,500 neu fwy i aelod o staff; neu

- Gyfanswm o £2,500 neu fwy rhwng yr holl benawdau gwariant i aelod o staff;
- £2,500 neu fwy am un eitem gyfalaf.

7.7 Gall disgrifiadau amwys ar y ffurflenni olygu bod yn rhaid i'r Uned Hawliadau Etholiadau gwestiynu'r draul. Yn ei dro, gall hyn olygu bod angen iddi gael y ddogfen neu'r dogfennau ategol mewn perthynas â'r draul berthnasol, hyd yn oed ar gyfer y Swyddogion Cyfrif hynny sy'n destun proses graffu cyfrifon clir.

7.8 Os bydd yr hawliad yn fwy na'r uchafswm y gellir ei adennill, bydd yn dod yn gyfrif craffu llawn yn awtomatig a bydd angen i'r Swyddog Cyfrif ddarparu'r **holl dystiolaeth** mewn perthynas â'r hawliad.

7.9 O ran craffu **CYFFYRDDIAD YSGAFN**, bydd angen i Swyddogion Cyfrif roi cyfrif am eu holl wariant (o dan bob pennawd gwariant). Fodd bynnag, ni fydd angen iddynt gyflwyno unrhyw dalebau, anfonebau na derbynebau ar wahân i:

- anfonebau meddalwedd / trwydded TG;
- Taliadau sengl o £2,500 i aelod o staff; neu
- Gyfanswm o £2,500 rhwng yr holl benawdau gwariant i aelod o staff;
- Argraffu (cardiau pleidleisio, papurau pleidleisio, datganiadau pleidleisio drwy'r post ac ati);
- Taliadau i staff na ellir eu cofnodi rywle arall (J1) (Eitemau Clercol Cyffredinol gynt);
- Tâl postio (cardiau pleidleisio a phleidleisiau post).

7.10 Gall disgrifiadau amwys ar y ffurflenni olygu bod yn rhaid i'r Uned Hawliadau Etholiadau gwestiynu'r draul. Yn ei dro, gall hyn olygu bod angen iddi gael y ddogfen neu'r dogfennau ategol mewn perthynas â'r draul berthnasol.

7.11 Os bydd yr hawliad yn fwy na'r uchafswm y gellir ei adennill, bydd yn dod yn gyfrif craffu llawn yn awtomatig a bydd angen i'r Swyddog Cyfrif ddarparu'r holl dystiolaeth mewn perthynas â'r hawliad.

7.12 Bydd angen i Swyddogion Cyfrif sy'n destun **CRAFFU LLAWN** gyflwyno tystiolaeth o'r **holl wariant**.

## 8 Cyngor cyffredinol ar yr hyn y gallwch ei hawlio

8.1 Fel y nodwyd ym mharagraff 1.19, gofynnwn i chi'n benodol gysylltu â'r Comisiwn drwy'r Uned Hawliadau Etholiadau am gymeradwyaeth cyn i chi fynd i unrhyw gostau yn y categorïau a restrir isod. Argymhellwn eich bod yn

cysylltu â'r Uned Hawliadau Etholiadau cyn ymrwymo i'r gwariant os na fyddwch yn siŵr a allwch hawlio amdano :

- Defnyddio ymgynghorwyr i gynnal y bleidlais;
- Ar gyfer unrhyw gostau anarferol neu newydd (er enghraifft, caffael unrhyw "eitemau ansafonol" o ran cyfarpar neu wasanaethau rydych yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y bleidlais);
- TG ac unrhyw gyfarpar technolegol arall.

### **Ni dalwn y costau hyn oni chytunir arnynt ymlaen llaw.**

8.2 Er bod Swyddogion Cyfrif yn gweithredu mewn rhinwedd annibynnol statudol, ni welwn unrhyw beth o'i le â defnyddio fframweithiau / contractau presennol awdurdodau lleol lle maent yn cyflawni gwerth am arian.

8.3 Er ein bod yn cydnabod y gall fod yn well gan Swyddogion Cyfrif ddefnyddio darparwyr gwasanaeth y maent yn ymddiried ynddynt, rydym hefyd yn disgwyl iddynt ddefnyddio'r opsiwn mwyaf cost effeithlon sydd ar gael. Ar gyfer eitemau fel argraffu a phostio / dosbarthu, gall hyn gynnwys newid cyflenwr er mwyn cael budd o gyfraddau is neu fwy o ostyngiad

## **Costau cyfarpar**

8.4 Rhaid dosrannu'r gost o brynu cyfarpar (e.e. bythau pleidleisio, blychau pleidleisio ac eitemau "cyfalaf" eraill) er mwyn adlewyrchu'r ffaith y gall y cyfarpar gael ei ddefnyddio mewn etholiadau yn y dyfodol. Ni allwch hawlio am gost lawn cyfarpar a all gael ei ddefnyddio mewn digwyddiadau etholiadol eraill - dim ond cyfran o'r gost ar gyfer y refferendwm hwn ac yn yr ardal pleidleisio hon. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i chi ystyried gwerth y cyfarpar a'i rannu â nifer y pleidleisiau sydd i ddod sy'n hysbys adeg prynu'r cyfarpar ac a gynhelir yn ystod oes y cyfarpar. Os cyflwynir pleidleisiau ychwanegol yn ystod oes y cyfarpar (er enghraifft, is-etholiadau cyngor a phlwyf, refferenda treth gyngor a chynllunio cymdogaeth, is-etholiadau Seneddol, refferenda llywodraethu awdurdod lleol, refferenda cenedlaethol) ni chaiff y rhain unrhyw effaith ar y dosraniad cychwynnol ar gyfer taliadau y cytunwyd arnynt. Yn gyffredinol, bydd awdurdod lleol yn debygol o elwa ar y cyfrifiad hwnnw oherwydd bydd yn fwy tebygol o gynnal pleidleisiau lleol heb eu trefnu a'r awdurdod lleol a gaiff unrhyw werth sgrap sy'n weddill.

8.5 Bydd oes amcangyfrifedig cyfarpar yn amrywio yn dibynnu ar y cyfarpar dan sylw; ei ansawdd; faint o ddefnydd a wneir ohono; sut y caiff ei drin a'i drafod, ei storio a'i gynnal a'i gadw ac ati. Fel rheol, byddem yn disgwyl i eitemau mawr o gyfarpar gorsafoedd pleidleisio fel sgriniau pleidleisio modern a blychau pleidleisio bara o leiaf 15 mlynedd o'u defnyddio'n rheolaidd - hynny yw, yn achos y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, tua chwe etholiad cenedlaethol a hyd at 10 o etholiadau lleol neu etholiadau eraill (er y caiff rhai o'r rhain eu cyfuno, wrth gwrs, a bydd etholiadau sedd

wag achlysurol hefyd). Bydd angen i unrhyw amcangyfrif o oes cyfarpar o'r fath sy'n llai na hynny gael ei gyfiawnhau'n ofalus (wrth gwrs, derbynnir amcangyfrif o ddisgwyliad oes hwy).

ENGHRAIFFT

Oes cyfarpar = 5 mlynedd				
Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5
Etholiad lleol	Etholiad lleol		Ewropeaidd	Seneddol
1/4	1/4		1/4	1/4

Os bydd eitem o gyfarpar yn para pum mlynedd ac yn ystod y pum mlynedd hynny trefnwyd etholiadau lleol ymhen dwy flynedd, etholiad Seneddol ac etholiad Ewropeaidd, byddai'r gost yn chwarter ar gyfer pob un o'r etholiadau hynny i'w hadennill o'r ffynhonnell berthnasol o gyllid. Ym Mlwyddyn 4, felly, byddai gan y Swyddog Canlyniadau hawl i adennill chwarter o'r cyfanswm cost o'r Gronfa Gyfunol a chwarter arall ym Mlwyddyn 5.

8.6 Dylai eich hawliad ddangos yn glir sut y gwnaethoch bennu gwerth y cyfarpar yr hawlir ar ei gyfer a chynnwys tystiolaeth ategol, fel anfonebau sy'n dangos y gost gychwynnol ac unrhyw gyngor y gallech fod wedi'i gael am fywyd defnyddiol y cyfarpar neu ei werth sgrap amcangyfrifedig. Ni fydd angen cadw'r rhain i gyd i'w cyflwyno gyda hawliadau yn y dyfodol, ond dylech gadw rhai cofnodion fel y gallwch gyfeirio'r Uned Hawliadau Etholiadau neu gorff priodol at hyn wrth wneud hawliad newydd rywbryd yn y dyfodol. Mae hon yn system gymharol newydd o hyd ac efallai na fydd y cyngor a roddir yma yn cwmpasu pob senario nac yn ddigon clir ar gyfer yr holl amgylchiadau. Dylid cysylltu â'r Uned Hawliadau Etholiadau yn y lle cyntaf am gyngor a chanllawiau pellach ar yr hyn sy'n dderbyniol a sut i wneud cais os oes angen. Rhoddir y manylion cyswllt ar ddechrau'r Canllawiau hyn ym mharagraff 1.23.

## Meddalwedd reoli

8.7 Rydym yn cydnabod bod pecynnau meddalwedd rheoli etholiad yn adnodd hanfodol wrth reoli pleidleisiau. Ond maent yn gost angenrheidiol ar gyfer pob etholiad ac nid yw'n briodol i ni dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â hwy. Felly, byddwn yn barod i dalu costau canrannol perthnasol y trwyddedau priodol a chontractau cynnal a chadw ar gyfer elfennau perthnasol systemau o'r fath e.e. archwiliadau PVI. Fodd bynnag, rhaid cadw elfennau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau eraill, fel cofrestru, ar wahân oherwydd ni ellir ad-dalu eu costau fel traul refferendwm. **Felly, dylech allu cyflwyno tystiolaeth, os oes angen, o elfennau eich ffi'r drwydded fel y gallwn nodi'r swm rydych yn ei hawlio'n hawdd. Dylech hefyd sicrhau bod yr elfennau'n rhoi darlun cywir o'r broses o ddsrannu rhwng digwyddiadau etholiadol a chofrestru ac nad ydynt wedi'u pwysoli'n anghymesur**

8.8 Dylai Swyddogion Cyfrif nodi, fel y gwelir ym mhara 8.1, lle cyflwynir unrhyw broses TG newydd sy'n arwain at gost fod angen i Swyddogion Cyfrif ein hysbysu ymlaen llaw a chael cymeradwyaeth gennym cyn ymrwymo i unrhyw wariant. Bu achosion lle cyflwynwyd prosesau seiliedig ar TG nad oedd eu hangen ac a gynyddodd y gost. Ni fydd y Comisiwn yn ad-dalu cost unrhyw system newydd o'r fath y tu hwnt i gostau unrhyw broses angenrheidiol.

## Cyfarpar etholiad - eitemau derbyniol ac annerbyniol

8.9 Er mai bwriad y system hon o asesu a rhoi cyfrif am dreuliau refferendwm yw rhoi mwy o hyblygrwydd i chi a gostwng y lefel o reolaeth ganolog ar eich gwariant, nid yw hynny'n golygu eich bod yn rhydd i wario heb unrhyw gyfyngiadau o gwbl. Rhaid i chi barhau i gyfiawnhau bod y gwariant yn angenrheidiol er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol yn y DU.

8.10 Mae hynny'n golygu nad oes rhaid i ni eich ad-dalu am unrhyw wariant sydd y tu hwnt i'r diffiniad hwnnw. Ni allwn ychwaith ad-dalu gwariant ychwanegol oni fydd wedi bod yn rhesymol mynd iddo a bod y swm yn rhesymol. Dros y blynyddoedd, sefydlwyd gwahanol gynseiliau o ran yr hyn a ystyrir ac nad ystyrir yn draul angenrheidiol a rhoddir enghreifftiau ym mhara 8.13 isod.

8.11 Dylech gofio y byddwn ni a'r Uned Hawliadau Etholiadau yn craffu ar eich cyfrifon a gall eraill, sy'n ymddiddori yn y maes, graffu arnynt hefyd. Efallai y byddant yn cwestiynu taliadau nas bernir yn rhai dilys. Felly, rhaid i ni sicrhau bod gennym awdurdod cyfreithiol i wneud taliadau ac nad awdurdodir unrhyw daliadau annilys.

8.12 O ran ffonau symudol, prin iawn yw nifer y bobl sydd heb ffôn symudol bellach ac ni ddylai fod fawr o angen i logi ffonau symudol ar gyfer unrhyw

un sy'n gweithio ar etholiad. Gellir cyflwyno hawliadau am alwadau ffôn ar yr amod mai dim ond ar gyfer y refferendwm y'u gwnaed.

8.13 Isod ceir enghreifftiau o wariant nas ystyriwyd o'r blaen yn draul angenrheidiol er mwyn cynnal digwyddiad etholiadol mewn ffordd effeithiol ac effeithlon ac felly nas ad-dalwyd o dan y Gorchymyn Taliadau perthnasol. Parheir i wrthod ad-dalu am eitemau o'r fath.

- prynu ffonau symudol
- goleuadau parhaol ychwanegol y tu mewn neu'r tu allan i fannau pleidleisio neu ganolfannau cyfrif (er y gellir ystyried hawliadau rhesymol am oleuadau dros dro)
- tegyll trydan i'w defnyddio mewn gorsafoedd pleidleisio
- bagiau ysgwydd neu fag-droliâu er mwyn i staff gorsafoedd pleidleisio gario cyfarpar neu bapurau
- dillad arbennig ar gyfer staff cyfrif neu staff gorsafoedd pleidleisio e.e. crysau-t neu siwmperi
- blychau cymorth cyntaf neu gyflogi swyddogion cymorth cyntaf neu staff Ambiwlans Sant Ioan
- gorchuddion ar gyfer byrddau cyfrif
- gorchudd llawr mewn canolfannau cyfrif neu ddilysu
- blodau / prysgwydd neu unrhyw addurniadau eraill mewn canolfannau cyfrif neu ar gyfer unrhyw ran o'r broses bleidleisio
- lluniaeth i'r cyfryngau, ymgeiswyr, asiantiaid pleidiau, swyddogion diogelwch neu'r heddlu mewn canolfannau cyfrif neu ddilysu.
- lluniaeth mewn digwyddiadau anfon ac agor pleidleisiau post
- colli refeniw mewn lleoliadau, fel canolfannau hamdden, a logir fel canolfannau cyfrif neu ddilysu, gan gynnwys incwm bar neu fwyty, costau parcio, tanysgrifiadau aelodaeth, cyflogau staff canolfan
- cyflogi swyddogion iechyd a diogelwch i archwilio'r safle a'r cyfarpar
- ffotograffau neu ffotograffwyr i gofnodi unrhyw ran o broses y refferendwm
- cyfieithwyr/dehonglwyr, er enghraifft i ddarparu gwasanaethau cyfieithu arbenigol mewn gorsafoedd pleidleisio neu yn y cyfrif
- costau wrth gefn (staff pleidleisio, lleoliad, generaduron ac ati)
- ffioedd ymgynghori (heb gytundeb ymlaen llaw)
- cyfraddau cyflog sy'n uwch na'r gyfradd ar gyfer y gwaith
- talu am rôl Dirprwy Swyddog Cyfrif (neu 'ffioedd' Dirprwy Swyddog); rheolwr prosiect, rheolwr swyddfa etholiadau neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt.
- prynu sgriniau teledu, cyfarpar sain-weledol, bandiau llawes Bluetooth, teclynnau hybu signal ffonau symudol, llwybryddion Wi-fi neu eitemau tebyg eraill
- canolfan alwadau ddynodedig i ateb ymholiadau etholiadol
- goruchwylio'r broses o gasglu cyfarpar o'r storfa
- goruchwylio ac atgyweirio cyfarpar pleidleisio gan gynnwys paentio
- ffotograffiaeth ar gyfer arwyddion/lleoliad cyfrif



- baneri neu rubanau mewn gorsafoedd pleidleisio
- baneri argraffedig ac ati ar gyfer canolfannau cyfrif
- ailosod wyneb ffyrdd
- llety arferol mewn gwesty (derbyniwyd gwariant o'r fath yn flaenorol dim ond mewn perthynas â Swyddogion Canlyniadau/ Cyfrif neu eu dirprwyon ar noson yr etholiad o ganlyniad i'r pellter teithio neu am resymau iechyd a diogelwch e.e. gorffen yn hwyr adeg dilysu a chyfrif).
- costau tacsï

## Archwiliadau'r Post Brenhinol

8.14 Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi datgan y dylid archwilio canolfannau post y Post Brenhinol er mwyn sicrhau bod pleidleisiau post yn cyrraedd y canolfannau cyfrif cyn i'r bleidlais gau. Gwnaed hyn ar sail ad hoc mewn etholiadau cenedlaethol diweddar, gyda'r trethdalwr yn talu yn achos y bleidlais genedlaethol. Mae'r Prif Swyddog Cyfrif am sicrhau cysondeb ledled y DU o ran y refferendwm ac felly mae wedi gofyn i bob Swyddog Cyfrif ddefnyddio archwiliadau.

8.15 Darparwyd ar gyfer ariannu archwiliadau'r Post Brenhinol yn y Gorchymyn Taliadau. Negodwyd y gost o gynnal yr archwiliadau gyda'r Post Brenhinol a'r Prif Swyddog Cyfrif fydd yn talu amdanynt yn uniongyrchol. Fodd bynnag, caiff pob Swyddog Cyfrif neu ardal awdurdod lleol anfoneb am Drwydded Pleidleisiau Post y Post Brenhinol. Lle na ddefnyddir trwydded cynnyrch pleidleisiau post y Post Brenhinol gan y Swyddog Canlyniadau eisoes, ac mai dim ond er mwyn cynnal yr archwiliad y byddai ei hangen, gellir hawlio cost lawn y drwydded honno. Lle bydd Swyddog Canlyniadau eisoes wedi cael trwydded cynnyrch pleidleisiau post y Post Brenhinol i'w defnyddio gyda chynnyrch arall, yna gellir hawlio hanner cost y drwydded honno.

8.16 Mae'r Prif Swyddog Cyfrif hefyd wedi rhoi cyfarwyddyd ar y defnydd o drwyddedau ymateb busnes rhyngwladol fel dull o hwyluso dychwelyd pecynnau pleidleisio drwy'r post wedi'u cwblhau yn amserol o'r tu allan i'r DU. Mae'r Gorchymyn Taliadau hefyd yn darparu ar gyfer ariannu'r rhain.

## Cynllunio wrth gefn

8.17 Mae canllawiau'r Comisiwn Etholiadol yn nodi'r angen i gynllunio wrth gefn ac yn rhoi enghreifftiau o feysydd i'w hystyried. Er eu bod yn rhoi enghreifftiau, nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Cyfrif gymryd unrhyw gamau penodol o ran gwariant yn wahanol i rai o'u hargymhellion eraill. Fodd bynnag, mae'r canllawiau yn darparu i Swyddogion Cyfrif ddilyn trywydd gwahanol yn seiliedig ar ystyriaeth o'u hardal leol a phrofiadau blaenorol.

8.18 Dylid cynllunio ar gyfer risg a chynllunio wrth gefn er mwyn sicrhau y gallwch gynnal refferendwm llwyddiannus gan ystyried y risg, tebygolrwydd a chymesuredd. Ni chefnogir ceisio cwmpasu pob canlyniad posibl mewn ad-daliadau hawliadau. Mae'n bosibl meddu ar ddarpariaethau wrth gefn sy'n osgoi neu'n lleihau traul a dylid cadw hyn mewn cof wrth ystyried opsiynau.

## Cyflogi staff - tryloywder

8.19 Mae cyrff archwilio yn talu mwy a mwy o sylw i gyfrifon etholiadau ac yn craffu'n agos ar daliadau a wneir i staff. Cydnabyddwn fod pobl yn gweithio'n galed wrth baratoi ar gyfer etholiadau a refferenda a'u cynnal. Credwn ei bod yn gywir i staff gael eu had-dalu am y gwaith maent yn ei wneud, o ystyried bod staff yn aml yn gweithio oriau ychwanegol er mwyn sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd Swyddogion Cyfrif am ddefnyddio eu staff profiadol a chyfrifol ar gyfer rhai gweithgareddau er mwyn sicrhau bod y refferendwm yn cael ei gynnal yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn ymwybodol, yn sgil rhai hawliadau etholiad blaenorol, fod rhai ardaloedd fel petaent yn ad-dalu pobl heb esboniad clir o'r hyn y maent wedi'i wneud a/neu ar gyfraddau sydd fel petaent yn gyfystyr â ffi nad yw'n bodoli, e.e. ar gyfer dirprwyon, a/neu sy'n ymddangos yn ormodol mewn perthynas â'r dasg a gyflawnwyd.

8.20 Mae angen bod yn glir ac yn dryloyw wrth bennu'r hyn a dalwyd i unrhyw un sy'n gweithio ar refferendwm. Mae a wnelo un o'r meysydd sy'n cael y nifer fwyaf sylweddol o ymholiadau ynghylch hawliadau â thaliadau staff. Lle mae staff yn gweithio y tu allan i oriau swyddfa ar faterion yn ymwneud â'r bleidlais, fel dilysu neu gyfrif neu waith arall, mae'n amlwg na chânt eu talu am ei wneud eisoes mewn rhyw ffordd. Fodd bynnag, lle mae pobl yn cyflawni tasgau fel agor pleidleisiau post yn ystod y diwrnod gwaith, mae'n llai amlwg o ble y dylai'r arian ar gyfer hyn ddod. Mae gwahaniaeth sylweddol ymhlith Swyddogion Cyfrif o ran sut maent yn gwneud hyn a faint maent yn ei hawlio am weithgareddau o'r fath.

8.21 Mae rhai awdurdodau yn ystyried bod hyn yn dasg ychwanegol ac yn parhau i dalu cyflogau staff tra'n talu hefyd arian ychwanegol o'r Gronfa Gyfunol. Mae eraill o'r farn ei fod yn rhan o'r gwaith maent yn disgwyl i'w cyflogeion ei wneud neu maent yn gofyn iddynt 'glocio allan' am y cyfnod hwnnw fel nad ydynt yn cael eu talu gan yr awdurdod lleol yn ogystal â gan y Swyddog Cyfrif.

8.22 Waeth sut y gwneir hyn, rhaid i unrhyw ad-daliad o'r Gronfa Gyfunol fod ar gyfradd sy'n gymesur â'r dasg a gyflawnwyd. Ni wnawn awdurdodi taliadau yn seiliedig ar radd y swyddog sy'n gwneud y gwaith. Er enghraifft, os bydd pum person ar wahanol raddau yn agor pleidleisiau post, neu os bydd goruchwylwyr yn y bôn yn gwneud yr un gwaith, byddem yn disgwyl i gyfraddau tebyg gael eu talu.

8.23 Atgoffir Swyddogion Cyfrif fod Ffurflen L yn gofyn am fanylion pob aelod o staff sydd wedi cael taliadau o £2,500 neu fwy ynghyd â manylion y

tasgau a gyflawnwyd ganddynt, ar ba gyfradd y'u talwyd a nifer yr oriau a weithiwyd.

8.24 Un mater a allai beri pryder yw bod Swyddog Cyfrif, neu ei ddirprwy, yn cyflogi teulu agos a/neu ffrindiau. Er na waherddir cyflogaeth o'r fath, mae'n bwysig bod natur dyletswyddau unrhyw staff o'r fath wedi'i nodi'n glir ac y rhoddir cyfrif am bob taliad fel eu bod yn gwbl dryloyw.

8.25 Nid yn unig y bydd y Comisiwn yn cwestiynu hawliadau lle nad oes esboniad clir o'r dyletswyddau a gyflawnwyd mewn perthynas â derbyn ffi, ond gall archwilwyr nodi achosion o'r fath a cheisio gwneud ymholiadau pellach.

8.26 Dylai Swyddogion Cyfrif fod yn ymwybodol na thelir unrhyw ffi am eu dyletswyddau heblaw am yr hyn sydd o fewn yr uchafswm cyffredinol sydd ar gael am eu gwasanaethau. Felly, ni ddylent fod yn cael taliad ar wahân am ddyletswyddau eraill, fel goruchwyllo anfon ac agor pleidleisiau post, oherwydd ystyrir bod unrhyw ddyletswydd o'r fath wedi'i chynnwys yn y taliad cyffredinol am eu gwasanaethau. Nid ad-delir unrhyw hawliadau ar gyfer dyletswyddau eraill o'r fath, ar wahân i ddarparu hyfforddiant. Rhaid i unrhyw hyfforddiant a ddarperir fod ar gost gymesur mewn perthynas â hyfforddiant arall ac ni ellir ei hawlio ar gyfraddau gormodol.

## Gwasanaethau ar gontract allanol

8.27 Mae'n gyffredin i Swyddogion Cyfrif drefnu bod elfennau o'r broses pleidleisio drwy'r post, os nad i gyd, ar gontract allanol. Er bod hyn yn gwbl dderbyniol, rhaid i unrhyw hawliad ond adlewyrchu'r hyn sydd ei angen er mwyn darparu'r gwasanaeth mewn ffordd hanfodol, effeithlon ac effeithiol ac ni ddylai fod yn sylweddol uwch nag unrhyw gost am ddarparu'r un gwasanaeth yn fewnol. Felly, nid ariannwn unrhyw gostau am unrhyw wasanaethau technolegol neu â chymorth cyfrifiadur arbennig uwchlaw'r hyn a ystyrir yn angenrheidiol gennym. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n addo lefelau ychwanegol neu arbennig o wasanaethau a rennir.

8.28 Wrth hawlio am unrhyw gostau mewn perthynas â gwasanaeth pleidleisio a reolir, dylech sicrhau bod dadansoddiadau manwl yn cael eu darparu ar gyfer pob elfen o'r gwasanaeth, a sicrhau bod eich hawliad yn adlewyrchu'r costau hanfodol hyn yn unig. Ni ddylai contractwyr wrthwynebu hyn, ond os oes unrhyw gwestiynau, dylech nodi mai un o nodau'r system newydd yw cyflwyno mwy o dryloywder i'r broses o ariannu etholiadau a refferenda. Mae gennych chi fel y cwsmer, Llywodraeth y DU fel y ffynhonnell ariannu, a'r cyhoedd sy'n talu amdano yn y pen draw, yr hawl i wybod faint mae pob elfen o'r broses wedi'i chostio.

8.29 Dylid bod yn ofalus, wrth osod unrhyw elfen o'r refferendwm ar gontract allanol, nad yw'r costau yr eir iddynt yn sylweddol uwch na'r rhai yr eid iddynt petai'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n fewnol. Er bod gan Swyddogion Cyfrif hyblygrwydd o dan y penawdau gwariant amrywiol, byddwn yn cwestiynu unrhyw elfen o hawliad sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd, neu lle rydym o'r farn ei fod uwchlaw'r hyn sy'n angenrheidiol i

gynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Dylech allu dangos eich bod yn cyflawni gwerth am arian mewn perthynas â'ch holl wariant. Pan fydd elfennau o hawliad uwchlaw'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, gallwn wrthod talu am rai o'r elfennau ychwanegol hynny, os nad i gyd.

## Hawlio am Dreth (TAW a threth incwm)

8.30 Ni allwn adennill Treth ar Werth (TAW) ar dreuliau refferendwm y DU. Felly, dylech gynnwys TAW ar eich holl ffurflenni treuliau. Mae'r holl asesiadau yn y penodau uchod wedi'u gwneud ar sail y ffaith bod TAW wedi'i chynnwys, felly darparwyd ar gyfer TAW gynhwysol eisoes.

8.31 Mae gwahanol gyfundrefnau TAW yn gymwys i lywodraeth leol a chanolog. Gall awdurdodau lleol adennill TAW o ran gwasanaethau statudol o dan a33 o Ddeddf Treth ar Werth 1994. Mae adrannau Llywodraeth Ganolog yn dod o dan a41 o'r Ddeddf honno a dim ond mewn perthynas â gweithgarwch busnes, neu lle yr eir i TAW mewn perthynas â rhai gwasanaethau ar contract allanol a restrir yng nghyfarwyddeb gwasanaethau ar contract allanol y Trysorlys, y gallant adennill TAW.

8.32 Felly, efallai y bydd awdurdodau lleol am wneud hawliadau i ddatgan TAW ar elfennau o wariant y gellir eu priodoli i'r awdurdod lleol hwnnw. Fodd bynnag, mae hyn yn fater i'w drafod rhwng yr awdurdod lleol ac adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi - nid yw'n rhywbeth y gallwn roi cyngor arni.

8.33 Dylai pob ffigur yn eich cyfrifon sy'n ymwneud â thaliadau staff fod yn grynswth, nid yn net. Dylai unrhyw gwestiynau ar faterion treth incwm gael eu cyfeirio at yr Arolygydd Trethi Lleol sy'n delio â TWE yr awdurdod lleol perthnasol.

8.34 Codwyd cwestiynau'n flaenorol ynghylch taliadau llog a godir gan awdurdodau treth lleol lle mae Swyddogion Canlyniadau yn talu treth incwm yn hwyr ar gyfer staff etholiadol. Ymddengys fod hyn yn amrywio rhwng ardaloedd. Mewn rhai ardaloedd, gorchymynnwyd taliadau llog ar ôl dim ond ychydig wythnosau o oedi; mewn ardaloedd eraill cytunwyd i ohirio taliad tan ddiwedd y flwyddyn dreth er enghraifft heb unrhyw gosb.

8.35 Anogir Swyddogion Cyfrif i gysylltu â'u hawdurdodau treth lleol cyn y refferendwm er mwyn sicrhau eu bod yn glir ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol yn yr ardal honno. Yn ddelfrydol, dylai treth incwm sy'n ddyledus gael ei thalu i'r adran Cyllid a Thollau cyn gynted â phosibl ar ôl y bleidlais er mwyn osgoi'r risg o unrhyw daliadau llog. Fel arall, dylid dod i gytundeb â'r swyddfa dreth leol berthnasol er mwyn sicrhau y pennir terfynau amser realistig sydd hefyd yn osgoi'r risg honno.

8.36 Mewn unrhyw achos, ni fyddwn yn talu unrhyw daliadau llog yr eir iddynt am fod treth ddyledus wedi'i thalu'n hwyr. Felly, rhaid i Swyddogion

Cyfrif sicrhau nad ydynt yn mynd i gostau o'r fath drwy roi blaenoriaeth addas i wneud taliadau treth ar amser.

8.37 Daeth Gwybodaeth Amser Real i rym yn 2014 ac mae trefniadau treth newydd yn newid dyletswyddau pob cyflogwr, gan ei gwneud yn ofynnol iddo adrodd ar y taliadau a wnaed i bob cyflogai, ynghyd â'i statws treth perthnasol, wrth i'r taliadau gael eu gwneud (yn hytrach na gallu gohirio'r fath adrodd a thalu treth, fel y digwyddodd yn flaenorol).

8.38 Mae hyn yn effeithio ar Swyddogion Cyfrif sy'n cyflogi staff, p'un a ydynt yn staff Awdurdod Lleol presennol neu'n staff achlysurol, sy'n helpu gyda refferenda drwy staffio gorsafoedd pleidleisio a chanolfannau cyfrif neu gyflawni dyletswyddau etholiadol eraill, gan gynnwys canfaswyr gwaith cofrestru.

8.39 Mae'r adran Cyllid a Thollau wedi darparu canllawiau ar Wybodaeth Amser Real sydd ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/real-time-information-improving-the-operation-of-pay-as-you-earn>.

8.40 Yn ôl yr adran, nid oes unrhyw gyllid ychwanegol ar gael i weithredu'r newid hwn ar gyfer unrhyw gyflogwr. Mae cydweithwyr o'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi datgan nad yw'r newidiadau i drefniadau trethadwy yn cyflawni'r egwyddor "beichiau newydd" ac y dylid, felly, ddarparu ar eu cyfer o fewn y cyllid sydd eisoes ar gael.

8.41 Nid oes gan y Comisiwn unrhyw gyllid ychwanegol ar gael ar gyfer y newid hwn. Gan nad yw'n ganlyniad unrhyw bleidlais genedlaethol, mae'r adran Cyllid a Thollau o'r farn y dylai unrhyw gostau trosiannol i gydymffurfio â Gwybodaeth Amser Real fod yn fater i awdurdodau lleol, o ystyried y bydd angen i'r system fod ar waith ar gyfer etholiadau lleol beth bynnag.

## Yswiriant Gwladol

8.42 Ni thelir cyfraniadau Yswiriant Gwladol mewn perthynas â chyflogaeth mewn unrhyw refferendwm yn y DU. Nid yw cyflwyno Gwybodaeth Amser Real yn cael unrhyw effaith ar rwymedigaethau Cyfraniad Yswiriant Gwladol.

## Yswiriant ac Indemniad

8.43 Dylai Swyddogion Cyfrif fod eisoes wedi rhoi eu trefniadau eu hunain ar waith i'w hyswirio eu hunain rhag unrhyw risgiau a wynebwr wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol mewn etholiadau. Efallai y bydd yswiriant wedi'i gynnwys yn nhrefniadau yswirio'r awdurdod lleol ei hun i etholiadau ymestyn yr yswiriant hwnnw i refferenda a dylai Swyddogion Cyfrif gadarnhau pa yswiriant sydd ar waith.

8.44 Er y gall yswiriant yr awdurdod lleol gwmpasu rhai risgiau, gall Swyddogion Cyfrif hefyd fod yn atebol am hawliadau nas cwmpesir gan bolisiau yswiriant presennol. Yn sgil hyn, mae'r Comisiwn yn cynnig trefnu

drwy Senedd y DU fod indemniad penodol ar gyfer y refferendwm yn ategu'r polisïau yswiriant sydd eisoes yn bodoli'n lleol. Fodd bynnag, bydd yr indemniad hwn ond yn gymwys pan fydd y Swyddog Cyfrif wedi defnyddio pob opsiwn o dan yswiriant sy'n bodoli eisoes h.y. dylai polisïau presennol gwmpasu pob hawliad yn y lle cyntaf.

8.45 Dim ond yr hawliadau hynny na all polisïau yswiriant presennol ymdrin â hwy a ystyrir.

8.46 Mae gan rai polisïau yswiriant presennol amodau talu 'gorswm', hynny yw mae'r awdurdod lleol yn gytundebol rwymedig i dalu cost hawliadau hyd at y lefel hon. Nid yw indemniad Llywodraeth y DU yn cwmpasu adennill gorsymiau.

## Pensiynau a thaliadau staff

8.47 Nid yw ffioedd Swyddogion Cyfrif yn bensiynadwy ar gyfer refferenda cenedlaethol. Penderfynwyd ar hyn yn dilyn ymgynghoriad ar ofynion pensiwn ffioedd Swyddogion Cyfrif at ddibenion refferenda cenedlaethol a hefyd fe'i rhoddwyd ar waith mewn perthynas â refferendwm mis Mai 2011 ar system bleidleisio Seneddol y DU.

# CWBLHAU'R FFURFLENNI HAWLIO

## 9 Crynodeb o gyfrifon - Ffurflen A

9.1 Y ffurflen crynodeb o gyfrifon yw'r brif ddogfen sy'n crynhoi'r symiau a hawliwyd ac yn cadarnhau bod y cyfrifon yn gywir. Mae'n cynnwys y cyfansymiau a ddygwyd ymlaen o ffurflenni E i L ac mae'n ystyried y symiau a dderbyniwyd eisoes ar ffurf blaensymiau a/neu flaensymiau pellach. Mae'n crynhoi'r hyn a wariwyd, y blaensymiau a roddwyd a'r hyn sy'n ddyledus o hyd. Hefyd, mae'n ceisio cael peth data cyffredinol pellach ar y nifer gyffredinol o bleidleiswyr, yn ogystal â phleidleiswyr post a phleidleiswyr drwy ddirprwy. Mae'r nifer gyffredinol o bleidleiswyr yr un fath â'r hyn a ddefnyddir ar gyfer etholiadau - hynny yw, y ffigur ar ddiwedd y gofrestr bum diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio, gan gynnwys yr holl gofrestriadau a bennwyd yn dilyn ceisiadau hyd at y dyddiad cau 12 diwrnod ar gyfer cofrestru.

9.2 **Ni** ddylai'r cyfanswm a gofnodwyd yn rhan 2 o Ffurflen A - symiau a hawliwyd o dan bob pennawd gwariant - fod **uwchlaw'r** cyfanswm a restrwyd fel yr uchafswm cyffredinol y gellir ei adennill ar gyfer yr awdurdod hwnnw yn y Gorchymyn Taliadau. Ni fydd angen i unrhyw danwariant gael ei egluro'n benodol (er y gallwn fod am drafod yn hwyrach sut y cyflawnwyd unrhyw danwariant sylweddol) ond bydd angen cyfiawnhau unrhyw orwariant yn ofalus yn y ddogfennaeth ategol, gan gytuno â'r Uned Hawliadau Etholiadau - neu ei hysbysu - ymlaen llaw lle bo modd.

9.3 Pan fyddwch wedi bodloni eich hun, fel Swyddog Cyfrif, fod y cyfrifon yn gywir a bod y rhifydddeg yn gywir, rhaid i chi lofnodi'r ffurflen er mwyn datgan, hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred, fod y cyfrifon yn gywir a bod y gwariant yn unol â'r rheoliadau. Yn ôl y gyfraith, mae hyn yn gyfrifoldeb personol a byddwch yn atebol am unrhyw anghywirdeb neu anghysondeb.

9.4 Dylai Swyddogion Cyfrif lofnodi'r datganiad yn bersonol. Er nad yw'n arferol, fodd bynnag, gall fod amgylchiadau lle nad yw'r Swyddog Cyfrif ar gael i gymeradwyo'r cyfrifon yn bersonol. Mewn amgylchiadau eithriadol o'r fath, gall fod yn dderbyniol i ddirprwy "â phwerau llawn" lofnodi'r datganiad ar ran y Swyddog Cyfrif. Rhaid i ddirprwyon sy'n gwneud hyn sicrhau bod ganddynt yr awdurdod priodol i wneud hynny a'u bod wedi cyflwyno Ffurflen B a'u llythyr penodi ymlaen llaw.

## Egluro gorwariant

9.5 Os bydd achos o orwariant bydd angen i chi roi gwybodaeth am y canlynol:

- Pam yr aed uwchlaw'r uchafswm y gellir ei adennill
- Y dyfarniadau gwerth am arian a wnaed wrth ymrwymo gwariant ar gyfer y refferendwm, e.e. beth a wnaethoch i sicrhau nad yw'n ormodol. A gawsoch dri dyfynbris neu a oedd hyn yn unig gyflenwr? A gynhaliwyd proses dendro ac ati?
- Pam yr oedd yr holl gostau'n angenrheidiol ac yn rhesymol er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

## 10 Penodi Dirprwyon - Ffurflen B

10.1 Cydnabyddir y gall Swyddogion Cyfrif fod am benodi dirprwyon i weithredu ar eu rhan. Felly, darperir ar gyfer penodi dirprwyon a all hefyd gael pwerau dirprwyedig i lofnodi dogfennau yn lle ac ar ran Swyddogion Cyfrif, os na fyddant ar gael. Bydd angen cwblhau Ffurflen B gan roi manylion llawn yr holl Ddirprwyon a benodwyd sydd â phwerau llawn.

## 11 Manylion Cyfrif Banc - Ffurflen C

11.1 Cynghogir Swyddogion Cyfrif yn gryf i ystyried agor cyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu ar wahân ar gyfer eu blaensymiau cychwynnol a gwariant dilynol ar etholiad. Bydd hyn yn sicrhau y cedwir arian ar wahân i arian awdurdod lleol a bod modd rhoi cyfrif am y gwariant yn hawdd. Os bydd Swyddog Cyfrif yn dewis defnyddio cyfrif banc awdurdod lleol, yn hytrach nag agor un ei hun, rhaid gwahaniaethu rhyngddo'n glir iawn a gallu rhoi cyfrif am wariant y Swyddog Cyfrif ar wahân i wariant awdurdodau lleol. Mae Ffurflen C yn galluogi Swyddogion Cyfrif i gofnodi manylion y cyfrif banc y bydd angen trosglwyddo arian iddo ar ôl setlo.



# 12 Cais am Flaenswm Pellach - Ffurflen D

12.1 Gellir rhoi blaensymiau pellach yn ôl disgrisiwn y Comisiwn a gellir rhoi 15% arall o'r uchafswm cyffredinol y gellir ei adennill i Swyddog Cyfrif (hyd at uchafswm o 90%). Gwneir y blaensymiau hyn os bydd Swyddogion Cyfrif yn wynebu costau annisgwyl a / neu na ellir eu hadennill drwy'r blaenswm cychwynnol.

12.2 Gwneir taliadau'n uniongyrchol i'r cyfrif banc a nodwyd. Rhaid i'r Swyddog Cyfrif perthnasol lofnodi Ffurflen C er mwyn cadarnhau ei fod wedi darllen a derbyn y telerau sy'n sail i wneud y blaenswm. Y telerau yw:

- Bydd y Swyddog Cyfrif yn rhoi cyfrif priodol a phrydlon am unrhyw flaensymiau;
- Bydd y Swyddog Cyfrif yn ad-dalu unrhyw arian na chaiff ei wario a roddwyd iddo ar ffurf blaenswm;
- Bydd y Swyddog Cyfrif yn defnyddio unrhyw flaensymiau yn unol â'r darpariaethau yn y Gorchymyn Taliadau yn unig;
- Mae'r Swyddog Cyfrif wedi darllen a deall y mesurau cydymffurfio a'r sancsiynau posibl a all gael eu rhoi ar waith.

12.3 Y dyddiad olaf y gellir gwneud cais am flaensymiau pellach yw 23 Gorffennaf 2016, sef mis ar ôl dyddiad y refferendwm. Os bydd angen mwy o arian ar ôl y bleidlais, anogir y Swyddog Cyfrif i gyflwyno'r hawliad llawn fel y gellir setlo'r cyfrif a thalu'r balans sy'n ddyledus. Dylai'r Uned Hawliadau Etholiadau gael gwybod am unrhyw anfonebau sy'n weddill ac nas talwyd. Ystyrir cais am flaenswm ar ôl y refferendwm yn unol â'r lefelau craffu sy'n gymwys i gyfrifon. Ystyrir ceisiadau ar sail teilyngdod ond nid yw'n debygol y caiff unrhyw gais ar gyfer yr ardaloedd hynny ar y lefel graffu isaf eu cymeradwyo.

# 13 Gwasanaethau Swyddogion Cyfrif - Ffurflen E

13.1 Gan ddefnyddio Ffurflen E, bydd Swyddogion Cyfrif yn gallu adennill y swm am eu gwasanaethau penodol (yn wahanol i'w treuliau). Gelwir hyn yn "ffi bersonol" hefyd. Mae'r Gorchymyn Taliadau yn pennu uchafswm y gellir ei adennill am y gwasanaethau a nodwyd. **Ni ellir mynd uwchlaw'r swm hwn.** Nid yw'r hyblygrwydd a roddir i Swyddogion Cyfrif sy'n eu galluogi i dalu mwy am rai swyddogaethau a llai am eraill o fewn yr uchafswm y gellir ei adennill am dreuliau yn gymwys i'r ffi bersonol. Felly, ni chaiff Swyddogion Cyfrif hawlio mwy na'r swm a nodir yn y Gorchymyn Taliadau fel yr uchafswm am eu gwasanaethau er, wrth gwrs, nid oes unrhyw beth yn eu hatal rhag hawlio llai.

13.2 Yn y refferendwm bydd y swm sy'n daladwy am wasanaethau Swyddog Cyfrif yn cael ei dalu mewn dwy ran: telir 75% ar ôl y diwrnod pleidleisio yn yr wythnos sy'n dechrau 27 Mehefin 2016 a thelir y 25% sy'n weddill yn syth ar ôl clirio cyfrifon y refferendwm. Fodd bynnag, o dan baragraff 16 o Atodlen 3 i Ddeddf 2015, mae gan y Comisiwn y pŵer i ostwng neu wrthod talu ffi unrhyw Swyddog Cyfrif os ystyrir na wnaeth ddarparu ei wasanaethau'n ddigonol. Er enghraifft, os bydd Swyddog Cyfrif wedi torri ei ddyletswydd swyddogol neu heb ddilyn cyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif. Nodir gweithdrefn y Comisiwn ar gyfer gwerthuso'r broses o ddarparu gwasanaethau mewn perthynas ag Atodlen 3 i'r Ddeddf ar ein gwefan, ochr yn ochr â'r canllawiau hyn:

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/electoral-administrator/eu-referendum>

13.3 Fel rheol, mewn refferenda, Swyddogion Cyfrif sy'n penodi dirprwyon i weithredu ar eu rhan ac, mewn rhai amgylchiadau, gall y Swyddog Cyfrif ddewis neilltuo rhywfaint o'i ffi bersonol, os nad i gyd, i unrhyw ddirprwyon. Os felly, pan fydd y swm dros £2,500, dylid cyflwyno talebau neu dderbynebaw ategol a lofnodwyd sy'n rhoi manylion am y sail y talwyd unrhyw swm arni. Er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, nid yw'n ddigon gwneud taliad cyffredinol heb roi cyfiawnhad manwl dros y taliad hwnnw. Mae'r ffurflen hawlio (Ffurflen E) yn cynnwys lle i roi'r wybodaeth hon. O dan y Gorchymyn Taliadau, ni cheir talu ffi ar wahân i ddirprwy Swyddog Cyfrif o'r treuliau penodol.

## Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol

13.4 Mae'r Gorchymyn Taliadau yn caniatáu i Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol adennill swm safonol am eu gwasanaethau. Nid yw'r tasgau a gyflawnir gan Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol o reidrwydd yn dibynnu ar faint yr ardal a

weinyddir ganddynt. Ceir nifer graidd o weithgareddau na ellir ei lleihau y mae'n rhaid i Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol ei chyflawni, waeth sawl ardal gyfrifo leol neu etholaeth sydd yn eu hardaloedd.

13.5 Felly, caiff pob Swyddog Cyfrif Rhanbarthol adennill uchafswm safonol nad yw'n fwy na £12,000 am eu gwasanaethau yn refferendwm y DU.

13.6 Mae dadleuon tebyg yn gymwys i dreuliau'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol. Ceir nifer graidd o weithgareddau na ellir ei lleihau y mae'n rhaid i bob un ei chyflawni ac y mae'n rhaid talu amdani, yn ychwanegol at gostau eu swyddogaethau penodol a gyfrifir ar sail pro rata. Nodir yr uchafswm y caiff pob Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ei adennill yn y Gorchymyn Taliadau. Gellir priodoli'r holl gostau hyn i un o'r penawdau gwariant a ddisgrifir isod ac y dylid eu hawlio o dan y penawdau hynny. Felly, dylai'r costau mewn perthynas â'r cyfrif rhanbarthol, er enghraifft, gael eu hawlio o dan bennawd I.

13.7 Caiff treuliau eraill y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol (er enghraifft, i gwmpasu penodi a thalu dirprwyon, costau hyfforddi, teithio a chynhaliath, a chostau amrywiol eraill) eu hadennill o dan bennawd J (costau eraill) a chan ddefnyddio'r ffurflen honno.

## Swyddogion Cyfrif

13.8 Mae'r Gorchymyn Taliadau yn caniatáu i Swyddogion Cyfrif adennill uchafswm y gellir ei adennill am y gwasanaethau a nodir yn y Gorchymyn. Mae'r swm hwn yn ymwneud â maint yr ardal bleidleisio y maent yn gyfrifol amdanynt ac felly dylai adlewyrchu'r gwaith sydd ei angen er mwyn cynnal y refferendwm yn yr ardal honno. Felly, cyfrifwyd y swm mewn perthynas â nifer yr etholwyr yn yr ardal bleidleisio, ond gydag isafswm yn sail iddo sy'n cydnabod bod nifer graidd o weithgareddau na ellir ei lleihau y mae pob Swyddog Cyfrif yn ei chyflawni, beth bynnag fo maint ei ardal bleidleisio.

13.9 Ar gyfer pob ardal bleidleisio, bydd gan y Swyddog Cyfrif yr hawl i adennill swm am ei wasanaethau yn y refferendwm, sef £475 am bob 10,000 o etholwyr yn yr ardal honno ar sail pro rata (yn unol â data a roddwyd yn flaenorol i Swyddfa'r Cabinet). Pan fydd y ffigur sy'n deillio o'r cyfrifiad hwnnw o dan £2,500, fodd bynnag, caiff y Swyddog Cyfrif hawlio uchafswm o £2,500.

13.10 Dylai'r swm am wasanaethau'r Swyddog Cyfrif yn yr ardal bleidleisio sy'n destun yr hawliad gael ei gofnodi ar y ffurflen yn y blwch perthnasol o dan bennawd E1. Nid yw'n dderbyniol gwneud unrhyw daliadau perthnasol i'r Swyddog Cyfrif cyn i'r refferendwm gael ei gwblhau'n llwyddiannus na chyn llunio'r cyfrifon terfynol.

13.11 Er mwyn sicrhau tryloywder, dylai amlinelliad byr o'r gweithgareddau y gwnaethoch chi, fel y Swyddog Cyfrif, eu cyflawni wrth gynnal y bleidlais, gael ei roi ym mlwch esboniadol 2 ar Ffurflen E.

# 14 Costau gorsafoedd pleidleisio - Ffurflen F

14.1 Mae'r ffurflen hon yn nodi costau staffio, cyfarpar a rhedeg y gorsafoedd pleidleisio. Dylech roi cyfrif am bob pennawd gan ddefnyddio Atodiadau A, B, C, D ac E a rhoi dadansoddiad priodol o'r costau.

14.2 Nid ydym wedi defnyddio tybiaethau na fformiwla i bennu dyraniadau ar gyfer penawdau unigol. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Swyddogion Cyfrif amrywio'r swm a delir ganddynt am rai swyddogaethau o fewn yr uchafswm y gellir ei adennill am dreuliau. Fodd bynnag, efallai y byddwch am barhau i gyfeirio at wybodaeth flaenorol a byddem yn disgwyl i symiau unigol ar gyfer Clercod Pleidleisio a Swyddogion Llywyddu fod oddeutu'r ffioedd a dalwyd yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig ym mis Mai 2015, sef £115 a £195 yn y drefn honno ar gyfer y diwrnod pleidleisio.

14.3 Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y tybiaethau i dalu ffi Swyddog Llywyddu neu Glerc Pleidleisio i staff wrth gefn. Er ei bod yn arfer gorau sicrhau bod staff cyflenwi ar gael rhag ofn bod argyfwng, dim ond am y dyletswyddau a gyflawnir ganddynt y dylid gwneud taliad. Gellir talu am hyfforddiant a fynychir gan staff wrth gefn ond rhaid i unrhyw daliad o'r fath adlewyrchu costau real a gwirioneddol yr eir iddynt wrth fynychu hyfforddiant o'r fath. Rhaid hefyd ystyried sawl aelod o staff wrth gefn y gall fod ei angen, yn seiliedig ar brofiad blaenorol o gyfraddau gadael, fel y gellir dangos gwerth am arian mewn perthynas â darparu hyfforddiant. Dylai unrhyw daliadau a wneir o dan y categori hwn ddod o'r costau tybiedig cyffredinol.

14.4 Bwriedir i bennawd F3, sef "Swyddog Goruchwylio", gwmpasu staff sy'n gweithredu fel Arolygwyr Gorsafoedd Pleidleisio, yn ogystal ag unrhyw staff cynorthwyol eraill a gyflogir ar gyfer gweithgareddau y gellir eu priodoli i sefydlu a rheoli gorsafoedd pleidleisio.

14.5 Os telir staff drwy'r gyflogres, rhaid i chi sicrhau bod trefniadau ar waith i hepgor cyfraniadau Yswiriant Gwladol, oherwydd nis telir o ran y refferendwm.

14.6 Y swm a gaiff ei hawlio o dan Bennawd F6, sef Hyfforddiant, yw'r gost y mae staff yn mynd iddi wrth fynychu hyfforddiant, gan gydnabod y ffaith y gall fod angen iddynt gymryd amser i ffwrdd er mwyn gwneud hynny. Ni fwriedir iddo gwmpasu costau darparu'r hyfforddiant, a gwmpesir mewn man arall (o dan 'Costau Eraill' - ffurflen J).

14.7 Rhaid i Swyddogion Cyfrif sicrhau bod ffioedd a delir o dan y pennawd hwn yn adlewyrchu costau real a gwirioneddol. Er enghraifft, os nad oes angen i staff gymryd amser i ffwrdd er mwyn mynychu hyfforddiant neu os na wnaethant fynd i gostau teithio, ni ellir cyfiawnhau talu ffi. Yn yr un modd, rhaid gallu cyfiawnhau unrhyw gyfradd sefydlog a delir yn glir a sicrhau na ellir ei herio am unrhyw reswm.

14.8 Mae a wnelo Penawdau F7 ac F8 â llety. Dylai ysgolion a rhai adeiladau cyhoeddus eraill fod ar gael i Swyddogion Cyfrif am ddim, heblaw am gostau cynnal a chadw (gwres, trydan a goleuadau). Argymhellwn fod Swyddogion Cyfrif yn asesu gofynion eu gorsafoedd pleidleisio ar sail unigol. Ni wnawn ariannu hawliadau cyffredinol am gyfarpar neu wres heb fod asesiad wedi'i gynnal o b'un a oedd ei angen ar y gorsafoedd pleidleisio hynny'n benodol. Er nad oes angen rhoi manylion ar gyfer gorsafoedd pleidleisio unigol, gallwn ofyn am dystiolaeth eich bod wedi eu hystyried.

14.9 Nid oes unrhyw ddarpariaeth i ad-dalu lleoliadau wrth gefn. Er ei bod yn arfer gorau sicrhau bod trefniadau cyflenwi ar waith rhag ofn bod argyfwng, dim ond am y rheini sydd eu hangen mewn gwirionedd er mwyn cynnal y bleidlais mewn ffordd effeithlon ac effeithiol o dan yr amgylchiadau arbennig hynny y dylid gwneud taliad. Nid yw'n rhesymol talu am ddarparu cyfleusterau ddwywaith. Dylai unrhyw daliadau a wneir o dan y categori hwn ddod o'r costau tybiedig cyffredinol.

14.10 Cwmpesir cost cyfarpar gorsafoedd pleidleisio ym Mhennawd F10. Ni allwch hawlio am gost lawn cyfarpar a all gael ei ddefnyddio mewn digwyddiadau etholiadol eraill - dim ond y gyfran o'r gost sy'n berthnasol ar gyfer y refferendwm hwn ac yn yr ardal bleidleisio hon. Dylid cadw anfonebau a thalebau eraill ar gyfer hawliadau yn y dyfodol.

14.11 Disgwyliwn i eitemau mawr o gyfarpar gorsafoedd pleidleisio fel sgriniau pleidleisio modern a blychau pleidleisio bara o leiaf 15 mlynedd o'u defnyddio'n rheolaidd. Bydd angen i unrhyw amcangyfrif o oes cyfarpar o'r fath sy'n llai na hynny gael ei gyfiawnhau'n ofalus yn eich hawliad. Wrth gwrs, bydd amcangyfrif o ddisgwyliad oes hwy yn dderbyniol. Dylai Ffurflen M gael ei defnyddio i gadw cofnod o'r cyfarpar a brynwyd.

14.12 Mae Pennawd F11 yn ymwneud â chost cynhyrchu ac argraffu'r Papurau Pleidleisio i'w defnyddio yn y gorsafoedd pleidleisio ac nid ar gyfer pleidleisio drwy'r post.

14.13 At ddibenion y canllawiau hyn, ac yn unol ag arfer arferol, tybiwyd mai'r Swyddog Cyfrif fydd yn argraffu papurau pleidleisio, er bod gan y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol y pŵer i drefnu hyn ei hun. Felly, dylai hawliadau i ad-dalu treuliau argraffu papurau pleidleisio gael eu gwneud gan Swyddogion Cyfrif.

14.14 Os bydd contract argraffu papurau pleidleisio canolog wedi'i drefnu gan y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol, neu grŵp o Swyddogion Cyfrif, fodd bynnag, dylid gwneud trefniadau i'r contractwr, fel rhan o'r contract, nodi'r costau ar wahân fel y gellir rhoi cyfrif amdanynt yn briodol.

14.15 Caiff cyfansymiau pob pennawd gwariant a gyfrifwyd ar y ffurflenni ategol eu trosglwyddo'n awtomatig i'r llinell berthnasol yn rhan 2 o Ffurflen F a rhoddir cyfanswm.

14.16 Yn **ATODIAD A** rhaid rhoi cyfrif am bob taliad i staff o dan y pennawd gwariant priodol. Felly, taliadau i Swyddogion Llywyddu yw Pennawd F1, taliadau i Glercod Pleidleisio yw Pennawd F2, taliadau i Swyddogion Goruchwylio yw Pennawd F3 ac ati.

14.17 Newidiodd y gofyniad adrodd yn 2014 er mwyn ei gwneud yn bosibl i gostau staff gael eu nodi'n symlach. Yn hytrach na gorfod rhoi enwau pob aelod o staff, bydd yn ddigonol nodi'r math o staff a nifer y staff a gyflogwyd yn ogystal â'u ffi a'r cyfanswm cost (e.e. 40 o Glercod Pleidleisio x £[cyfradd berthnasol] = £[cyfanswm].)

14.18 Dylai nifer y staff o'r tîm etholiadau hefyd gael ei nodi mewn cromfachau yn y golofn "nifer y cyflogeion",

14.19 Yn **ATODIAD B** rhaid i gostau gorsafoedd pleidleisio, gan gynnwys llety, gwres, goleuadau, sefydlu ac ati, gael eu dangos ar y ffurflen o dan y Penawdau priodol - Pennawd F7 a Phennawd F8 ar gyfer gorsafoedd pleidleisio Parhaol a Dros Dro yn y drefn honno. Rhaid i'r rhain gael eu hategu gan dystiolaeth, fel anfonebau a dalwyd neu dalebau a lofnodwyd, yn unol â'r lefel o graffu sydd ei hangen. Ni fydd slipiau llogi ar gyfer gorsafoedd pleidleisio yn ddigon.

14.20 Mae'r gofynion adrodd ar gyfer costau nad ydynt yn gostau staff wedi'u hatgyfnerthu bellach (yn wahanol i gostau staff) lle nad yw'n glir at beth mae eitem yn cyfeirio. Bydd costau o'r fath yn gofyn am naratif mwy manwl o'r hyn a gynhwysir ac yn dangos y TAW sy'n gymwys (os o gwbl). Er enghraifft, os yw'r anfoneb yn cynnwys sawl elfen o gost, rhaid eu rhestru (llogi adeilad, gwres a goleuadau ac ati).

14.21 Mae angen cofnodi costau gorsafoedd pleidleisio eraill yn **ATODIADAU C-E**. Rhaid i'r costau hyn gael eu dangos ar y ffurflen o dan y Penawdau priodol; Pennawd F9 (paratoi a chludo cyfarpar), Pennawd F10 (costau cyfarpar) a Phennawd F11 (argraffu papurau pleidleisio) - a'u hategu gan dystiolaeth, fel anfonebau a dalwyd neu dalebau a lofnodwyd, yn unol â'r adran ar graffu.

14.22 Bydd yr atodiadau hyn hefyd yn gofyn am naratifau mwy manwl a bydd angen dangos y TAW sy'n gymwys (os o gwbl).

14.23 Dylai eich hawliad ddangos yn glir sut y gwnaethoch bennu gwerth blynyddol y cyfarpar yr hawlir ar ei gyfer a chynnwys tystiolaeth ategol, fel anfonebau sy'n dangos y gost gychwynnol ac unrhyw gyngor y gallech fod wedi'i gael am fywyd defnyddiol y cyfarpar neu ei werth sgrap amcangyfrifedig. Bydd angen cadw'r rhain i gyd er mwyn eu cyflwyno ar gyfer hawliadau yn y dyfodol, a dylech gadw cofnodion fel y gallwch gyfeirio'r Uned Hawliadau Etholiadau neu gorff priodol at hyn wrth wneud hawliad yn y dyfodol. Dylai anfonebau eraill neu dystiolaeth ategol arall, er enghraifft costau storio, hefyd gael eu cyflwyno a'u rhestru ar y ffurflen hon.

14.24 Rhaid i unrhyw gostau cyfarpar sydd eu hangen er mwyn cefnogi pleidleisiau post neu'r cyfrif gael eu cynnwys ar y ffurflenni ar gyfer y swyddogaethau hynny.

## 15 Costau cardiau pleidleisio - Ffurflen G

15.1 Dylai Ffurflen G roi dadansoddiad o gostau pleidleisiau post. Dylai gynnwys costau paratoi pecynnau pleidleisiau post, eu hanfon, eu hagor ac archwilio ffurflenni a ddychwelwyd. Dylech roi cyfrif am bob pennawd gan ddefnyddio **Atodiadau A-G**.

15.2 O ran **Pennawdau G1 a G2**, Costau staff, os telir staff drwy'r gyflogres, rhaid i chi sicrhau bod trefniadau ar waith i hepgor cyfraniadau Yswiriant Gwladol, oherwydd nis telir o ran y refferendwm.

15.3 Nid oes cyfrifiad ar wahân ar gyfer staff goruchwylio, cynorthwyol na TG a gyflogir i baratoi pleidleisiau post neu eu hanfon, eu derbyn a'u harchwilio. Dylai unrhyw gostau staff ddod o dan benawdau costau staff (pennawdau **G1, G2 a G3**).

15.4 Ni allwch hawlio am luniaeth staff wrth baratoi neu ddsbarthu pleidleisiau post. Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud staff yn ymwybodol o'r amodau gwaith y gallant eu disgwyl.

15.5 O dan Bennawd **G3**, mae'r swm am dderbyn hyfforddiant yn cwmpasu'r costau y mae staff yn mynd iddynt wrth fynychu hyfforddiant, gan gydnabod y ffaith y gall fod angen iddynt gymryd amser i ffwrdd er mwyn gwneud hynny. Ni fwriedir iddo gwmpasu costau darparu'r hyfforddiant, a gwmpesir mewn man arall (o dan "Costau Eraill" - Ffurflen J).

15.6 O ran Pennawd **G5 a G6**, gwyddom fod llawer o Swyddogion Cyfrif yn defnyddio cyfraddau dosbarthu busnes neu'n defnyddio staff i ddsbarthu â llaw. Derbyniwn hawliadau am ddefnyddio'r naill ddull neu'r llall. Fodd bynnag, er ein bod yn derbyn y gall fod yn well gan unigolion ddefnyddio darparwyr gwasanaeth y maent yn ymddiried ynddynt, disgwyliwn i Swyddogion Cyfrif ddefnyddio'r system ddarparu fwyaf cost effeithlon sydd ar gael a all olygu newid cyflenwyr er mwyn cael cyfraddau is a gostyngiadau uwch (e.e. os oes darparwr arall a all gynnig cyfraddau is/gostyngiadau uwch).

15.7 O ran costau llety am bleidleisiau post, **Pennawd G7**, gallwch hawlio am gostau llety paratoi pecynnau pleidleisio. Byddwn ond yn ad-dalu Swyddogion Cyfrif am y defnydd o lety awdurdod lleol lle codir tâl am ddefnyddio'r ystafelloedd fel arfer ac os yw'r swm a hawlir gennych yn gyson â'r gyfradd a godir fel arfer neu islaw honno.

15.8 Ni allwch hawlio am luniaeth staff wrth baratoi pecynnau pleidleisio. Eich cyfrifoldeb chi yw paratoi staff ar gyfer yr amodau gwaith y gallant eu disgwyl. Os bydd amgylchiadau eithafol sy'n golygu y peryglir iechyd a diogelwch eich staff os na ddarparwch luniaeth, gallwn gytuno ar hawliadau o dan yr amgylchiadau hynny. Fodd bynnag, byddwn yn disgwyl eich bod wedi cysylltu â'r Uned Hawliadau Etholiadau cyn y refferendwm er mwyn cyfiawnhau hyn a'ch bod yn gallu rhoi cyfiawnhad llawn.

15.9 O ran cost cyfarpar, **Pennawd G8**, gellir gwneud hawliadau ar gyfer hyd at hanner costau ffi'r drwydded TG flynyddol yn y flwyddyn y cynhelir y refferendwm, ac er mwyn cyfrannu at gostau unrhyw galedwedd angenrheidiol yn y ffordd a amlinellir uchod o dan "Cyngor cyffredinol ar yr hyn y gallwch ei hawlio". Fodd bynnag, fel gyda chyfarpar gorsafodded pleidleisio, ni fwriedir i unrhyw gyfraniad gwmpasu costau llawn cyfarpar prosesu pleidleisiau post a'r TG gysylltiedig; mae'n cynrychioli cyfran y Gronfa Gyfunol o'r costau hynny ar gyfer y refferendwm hwn yn yr ardal gyfrif honno.

15.10 Fel rheol, ategir caledwedd a meddalwedd Dynodyddion Pleidleisiau Post gan daliadau ffi'r drwydded flynyddol sy'n debycach i gontractau cynnal a chadw. Gall eich hawliad gwmpasu cyflenwi sganwyr a chyfarpar arall, gwasanaethau cymorth, uwchraddio meddalwedd a gwasanaethau eraill ac mae'n llawer mwy na thrwydded syml i ddefnyddio'r system benodol a brynwyd.

15.11 Mae'r Comisiwn yn barod i gyfrannu hyd at hanner cost ffi'r drwydded flynyddol sy'n daladwy ym flwyddyn y refferendwm, a bod ffi'r drwydded hefyd yn daladwy ar gyfer etholiadau eraill (fel swyddi gwag achlysurol eraill) yn y flwyddyn honno.

15.12 Lle defnyddir "gwasanaeth pleidleisio a reolir", bydd y Comisiwn ond yn ad-dalu'r costau hynny y byddid wedi mynd iddynt petai'r gwasanaeth wedi'i ddarparu'n fewnol. Mae hyn yn golygu na wnawn dalu costau sy'n ymwneud â gwaith Rheoli Prosiect, fel pecynnau rheoli prosiect, canllawiau adrodd, hyfforddi a defnyddiwr i reolwyr prosiect.

15.13 Bwriedir i gostau cyfarpar gwmpasu unrhyw gyfarpar ychwanegol sydd ei angen ar gyfer y refferendwm uwchlaw'r hyn y darparwyd ar ei gyfer yn gychwynnol drwy'r grantiau a roddwyd i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Gwnaed y grantiau hynny fel bod modd prynu'r galedwedd a'r feddalwedd oedd eu hangen i archwilio dynodyddion pleidleisiau post, hyd yn oed yn achos yr awdurdodau hynny nad oedd ganddynt etholiadau ar y gweill ac na fyddai angen y cyfarpar arnynt yn syth felly. Roedd y grantiau hyn yn daliad untro, arbennig ac nid ydynt yn gysylltiedig â'r arian a roddwyd ar gyfer y digwyddiad etholiadol hwn na digwyddiadau etholiadol eraill.

15.14 Efallai fod angen i'r cyfarpar hwn gael ei uwchraddio bellach ac rydym yn ymwybodol bod y galw am bleidleisiau post wedi cynyddu a all olygu bod angen darpariaeth bellach. Cydnabyddwn fod y ffordd y mae cyflenwyr TG yn strwythuro eu contractau bellach yn golygu nad yw taliadau neu grantiau untro o reidrwydd yn diwallu anghenion gweinyddwyr.



15.15 Wrth gwrs, byddai angen i Swyddogion Cyfrif a gweinyddwyr etholiadol drefnu contractau o'r fath bob blwyddyn p'un a oedd refferendwm ai peidio. Rhaid talu ffi'r drwydded er mwyn cynnal etholiad - gan gynnwys, er enghraifft, swyddi gwag achlysurol lleol. Felly, telir hanner o'r Gronfa Gyfunol.

15.16 Os bydd gennych nifer ychwanegol o bleidleiswyr post yn dilyn y canfasiad, byddwn yn setlo eich hawliad ar sail y nifer derfynol o bleidleiswyr post ar ddiwrnod -11 cyn yr etholiad. Bydd angen i chi ein hysbysu am y newid hwn yn eich hawliad gan ddefnyddio blwch esboniadol 3.

15.17 Caiff cyfansymiau pob pennawd gwariant a gyfrifwyd ar y ffurflenni ategol eu trosglwyddo'n awtomatig i'r llinell berthnasol yn rhan 2 o Ffurflen G a rhoddir cyfanswm. Yna gall y cyfanswm hwn gael ei drosglwyddo i'r llinell briodol ar Ffurflen A.

15.18 O ran cofnodi costau staff ar Atodiad A i Ffurflen G, rhaid rhoi cyfrif am bob taliad staff o dan y pennawd gwariant priodol. Felly, dylai taliadau am baratoi ac agor pleidleisiau post gael eu cynnwys ym Mhennawd G1, y rhai ar gyfer eu hagog a'u harchwilio ym Mhennawd G2, y rhai ar gyfer hyfforddiant ym Mhennawd G3 ac ati.

15.19 Ymlaciwyd y gofyniad adrodd bellach er mwyn ei gwneud yn bosibl i gostau staff gael eu nodi'n symlach. Yn hytrach na gorfod rhoi enwau pob aelod o staff, bydd yn ddigonol nodi'r math o staff a nifer y staff a gyflogwyd yn ogystal â'u taliad a'r cyfanswm cost (e.e. Costau agor ac archwilio x 10 x £18 = £180 (symiau enghreifftiol yw'r rhain yn unig)).

15.20 Dylai nifer y staff o'r tîm etholiadau hefyd gael ei nodi mewn cromfachau yn y golofn "nifer y cyflogeion", Bydd hyn yn dangos yn glir gyfran y staff a ddaeth o'r tu allan i'r tîm etholiadau.

15.21 Os yw'n well gennych dalu swm cyfunol i staff sy'n cwmpasu cyflogau a lwfansau hyfforddi ac ati, gallwch wneud hynny ar yr amod y rhoddir cyfrif am y taliadau o dan y penawdau gwariant priodol.

15.22 Rhaid i'r daleb ddangos yn glir y swm a hawli'r pen a rhaid i symiau unigol gael eu rhestru ar wahân ac nid fel un cyfanswm mawr, oni fydd y symiau'n safonol (er enghraifft 100 o bobl sy'n cael £100 = £10,000). Os yw'r symiau'n amrywio, rhaid i bawb a delir gael eu rhestru'n unigol ar y ffurflen.

15.23 Dylid cymryd gofal i gofnodi natur gweithgareddau swyddogion goruchwylio a staff cynorthwyol, gan nodi pwy sy'n eu cyflawni am sawl awr, fel y gellir gwneud hawliad a ategir yn briodol.

15.24 Dylai'r ddogfennaeth gyflogres ategol nodi'n glir staff a'u dyletswyddau, a rhoi tystiolaeth o daliadau unigol. Dim ond mewn rhai achosion y bydd angen cyflwyno'r ddogfennaeth ategol hon.

15.25 Rhaid dangos costau eraill ar y ffurflen hefyd o dan y Penawdau priodol - Pennawd G4 (argraffu a deunydd ysgrifennu), Pennawd G5 (postio allan),

Pennawd G6 (postio i mewn), Pennawd G7 (llety), a Phennawd G8 (cyfarpar) - a'u hategu gan dystiolaeth yn unol â'r adran ar graffu yn Atodiadau B - G.

15.26 Mae'r gofynion adrodd ar gyfer costau nad ydynt yn gostau staff wedi'u hatgyfnerthu bellach (yn wahanol i gostau staff) lle nad yw'n glir at beth mae eitem yn cyfeirio. Bydd costau o'r fath yn gofyn am naratif mwy manwl o'r hyn a gynhwysir ac yn dangos y TAW sy'n gymwys (os o gwbl).

15.27 Lle y trefnwyd gweithgarwch argraffu a deunydd ysgrifennu yn fewnol, bydd cadarnhad o'r gost gan adrannau Cyllid mewnol yn dystiolaeth ddigonol. Bydd eich dewis gyflenwr post fwy na thebyg yn cyflwyno un anfoneb am ei wasanaethau pleidleisiau post, ond bydd angen i'r anfoneb nodi'r costau ar wahân (post allan, post i mewn ac ati). Dylai'r elfennau ar wahân hyn gael eu nodi ar y ffurflen.

15.28 Dylai costau llety hefyd gael eu nodi â thystiolaeth ategol yn unol â'r adran ar graffu - unwaith eto, bydd cadarnhad mewnol o'r gost gan adrannau Cyllid mewnol yn dystiolaeth ddigonol lle bo'n briodol (Pennawd G7).

15.29 Dylai hawliadau am gostau cyfarpar neu wasanaethau archwilio pleidleisiau post sydd uwchlaw'r rhai a dalwyd eisoes o'r Gronfa Gyfunol pan gyflwynwyd archwiliadau Dynodyddion Pleidleisiau Post gyntaf gael eu gwneud o dan Pennawd G8. Dylai hawliadau am galedwedd neu gyfarpar arall gael eu gwneud ar yr un sail ag ar gyfer cyfarpar gorsafoedd pleidleisio, gan ystyried ei werth dibrisio blynyddol (gweler uchod o dan "Cyngor cyffredinol ar yr hyn y gallwch ei hawlio" am esboniad manwl). Dylid sicrhau mai dim ond hawliadau am gostau sy'n berthnasol i'r ardal bleidleisio a wneir.

15.30 Pan fydd rhan o'r broses pleidleisio drwy'r post, os nad i gyd, ar gontract allanol ac y lluniwyd contractau â chwmnïau i ddsbarthu nwyddau a gwasanaethau, dylech, fel rhan o'r contract, ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr nodi'r costau ar wahân o dan y Pennawdau gwariant a restrwyd uchod. Yna gallwch gwblhau Ffurflen G yn briodol, gan atodi'r anfoneb(au) fel sydd angen. Ni ddylai contractwyr wrthwynebu hyn, ond os oes unrhyw gwestiynau, dylech nodi mai un o nodau'r system bresennol yw cynnig mwy o dryloywder i'r broses o ariannu etholiadau a refferenda. Mae gennych chi fel y cwsmer, y Comisiwn fel y ffynhonnell ariannu, a'r cyhoedd sy'n talu amdano yn y pen draw, yr hawl i wybod faint mae pob elfen o'r broses wedi'i chostio. Dylid nodi, lle defnyddir "gwasanaeth pleidleisio a reolir", bydd y Comisiwn ond yn ad-dalu'r costau hynny y byddid wedi mynd iddynt petai'r gwasanaeth wedi'i ddarparu'n fewnol. Mae hyn yn bwysig yn golygu na wnawn dalu costau sy'n ymwneud â gwaith Rheoli Prosiect, fel pecynnau rheoli prosiect, canllawiau adrodd, hyfforddi a defnyddiwr i reolwyr prosiect.

15.31 Dylai unrhyw gostau cyfarpar gael eu rhestru a'u hategu gan anfonebau priodol (Pennawd G8) (er mai dim ond o dan rai amgylchiadau, yn dibynnu ar eich categori craffu, y bydd angen cyflwyno'r dogfennau ategol). Dylai hawliadau am gyfarpar gael eu gwneud ar yr un sail ag ar gyfer cyfarpar arall, gan ystyried ei werth dibrisio blynyddol a'i ddefnydd mewn nifer o etholiadau.

# 16 Costau cardiau pleidleisio - Ffurflen H

16.1 Dylai **Ffurflen H** gael ei defnyddio i gofnodi costau paratoi ac anfon cardiau pleidleisio. Dylid rhoi cyfrif am y gwariant gan ddefnyddio'r ffurflen ac **Atodiadau A-D**.

16.2 O ran **Pennawd H1**, sef Costau staff, os telir staff drwy'r gyflogres, rhaid i chi sicrhau bod trefniadau ar waith i hepgor cyfraniadau Yswiriant Gwladol, oherwydd nis telir o ran y refferendwm.

16.3 Ni allwch hawlio am luniaeth staff wrth baratoi neu ddsbarthu cardiau pleidleisio. Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud staff yn ymwybodol o'r amodau gwaith y gallant eu disgwyl.

16.4 O ran Pennawd **H4**, gwyddom fod llawer o Swyddogion Cyfrif yn defnyddio cyfraddau dosbarthu busnes neu'n defnyddio staff i ddsbarthu â llaw. Derbyniwn hawliadau am ddefnyddio'r naill ddull neu'r llall. Fodd bynnag, er ein bod yn derbyn y gall fod yn well gan unigolion ddefnyddio darparwyr gwasanaeth y maent yn ymddiried ynddynt, disgwyliwn i Swyddogion Cyfrif ddefnyddio'r system ddarparu fwyaf cost effeithlon sydd ar gael a all olygu newid cyflenwyr er mwyn cael cyfraddau is a gostyngiadau uwch (e.e. os oes darparwr arall a all gynnig cyfraddau is/gostyngiadau uwch).

16.5 Caiff cyfansymiau pob pennawd gwariant a gyfrifwyd ar y ffurflenni ategol eu trosglwyddo'n awtomatig i'r llinell berthnasol yn rhan 2 o Ffurflen H a rhoddir cyfanswm. Yna gall y cyfanswm hwn gael ei drosglwyddo i'r llinell briodol ar Ffurflen A.

16.6 Os bydd nifer yr etholwyr cofrestredig wedi cynyddu, efallai y byddwch am ein hysbysu o hyn ym mlwch esboniadol 3. Ystyrir hyn wrth adolygu'r swm a hawliwyd.

16.7 Rhaid rhoi cyfrif am daliadau i staff am baratoi cardiau pleidleisio o dan **Bennawd H1**. Ymlaciwyd y gofyniad adrodd bellach er mwyn ei gwneud yn bosibl i gostau staff gael eu nodi'n symlach. Yn hytrach na gorfod rhoi enwau pob aelod o staff, bydd yn ddigonol nodi'r math o staff a nifer y staff a gyflogwyd yn ogystal â'u ffi a'r cyfanswm cost (e.e paratoi cardiau pleidleisio x 3 x £5 = £15 (symiau enghreifftiol yw'r rhain yn unig)).

16.8 Dylai nifer y staff o'r tîm etholiadau hefyd gael ei nodi mewn cromfachau yn y golofn "nifer y cyflogeion". Bydd hyn yn dangos cyfran y staff a ddaeth o'r tu allan i'r tîm etholiadau.

16.9 Dylai'r ddogfennaeth gyflogres ategol nodi'n glir staff a'u dyletswyddau, a rhoi tystiolaeth o daliadau unigol. Dim ond mewn rhai achosion y bydd angen cyflwyno'r ddogfennaeth ategol hon.

16.10 Rhaid i gostau eraill gael eu dangos hefyd ar Ffurflen H o dan y penawdau priodol - Pennawd H2 (cyfarpar), Pennawd H3 (argraffu) a Phennawd H4 (postio / dosbarthu).

16.11 Mae'r gofynion adrodd ar gyfer costau nad ydynt yn gostau staff wedi'u cynyddu bellach (yn wahanol i gostau staff) lle nad yw'n glir at beth mae eitem yn cyfeirio. Bydd costau o'r fath yn gofyn am naratif mwy manwl o'r hyn a gynhwysir ac yn dangos y TAW sy'n gymwys (os o gwbl).

16.12 Noder y bydd disgrifiadau amwys ar y ffurflenni yn peri i'r Uned Hawliadau Etholiadau gwestiynu'r draul a gall ofyn am y ddogfen neu'r dogfennau ategol mewn perthynas â'r draul berthnasol, hyd yn oed ar gyfer hawliadau sy'n destun proses graffu cyfrifon clir neu gyffyrddiad ysgafn.

16.13 Dylai unrhyw gostau cyfarpar gael eu rhestru a'u hategu gan anfonebau priodol (Pennawd H2) (er mai dim ond o dan rai amgylchiadau, yn dibynnu ar eich categori craffu, y bydd angen cyflwyno'r dogfennau ategol). Dylai hawliadau am gyfarpar gael eu gwneud ar yr un sail ag ar gyfer cyfarpar arall, gan ystyried ei werth dibrisio blynyddol a'i ddefnydd mewn nifer o etholiadau.

16.14 Dylai costau argraffu gael eu cofnodi a dylai'r anfonebau gael eu cyflwyno (Pennawd H3). Lle y trefnwyd gweithgarwch argraffu a deunydd ysgrifennu yn fewnol, bydd cadarnhad o'r gost gan adrannau Cyllid mewnol yn dystiolaeth ddigonol.

16.15 Gellir dosbarthu cardiau pleidleisio drwy'r Post Brenhinol, contractwr dosbarthu arall, neu â llaw, gan ddefnyddio staff wedi'u cyflogi gan y Swyddog Cyfrif. Yn achos y Post Brenhinol (neu sefydliad dosbarthu masnachol arall), dylai'r gost gael ei chofnodi o dan Bennawd H4 a dylai'r anfoneb gael ei hatodi.

16.16 Mae dosbarthu cardiau pleidleisio â llaw, gan ddefnyddio staff a gyflogir at y diben hwnnw, yn opsiwn a gymerir gan lawer o Swyddogion Cyfrif. Mewn achosion o'r fath, rhaid i chi roi cyfrif am y taliadau o dan Bennawd H4, ac arsylwi'r gofynion ar gyfer cofnodi'r taliadau a nodwyd yn y paragraffau.

## 17 Costau cyfrif - Ffurflen I

17.1 Rhaid cofnodi costau'r cyfrif ar **Ffurflen I** gyda chostau staffio, cyfarpar a chynnal y bleidlais wedi'u dadansoddi a rhoi cyfrif amdanynt gan ddefnyddio

**Atodiadau A-E.** Dylai'r costau ychwanegol yr eir iddynt o ran yr ymarfer cyfrif y bwriedir ei gynnal ar 24 Mai 2016 gael eu cynnwys yn y rhan hon o'r hawliad, a dylech nodi'n glir yr elfennau hynny sy'n ymwneud â'r ymarfer yn y blychau esboniadol a'r meysydd disgrifio a roddir ar y ffurflenni.

17.2 Yn y refferendwm, bydd Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a Swyddogion Cyfrif yn mynd i gostau mewn perthynas â'r cyfrif. Bydd Swyddogion Cyfrif yn cynnal y cyfrif yn eu hardal gyfrif ac yn cludo'r cyfanswm i fan canolog i'w goladu gan y Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol. Fodd bynnag, mae egwyddorion tebyg yn gymwys i'r ddau, ac mae'r hyn sy'n dilyn yr un mor gymwys.

17.3 Dylai costau staff gael eu cofnodi o dan Benawdau I1 i 13. Bwriedir i Bennawd I2, sef "Swyddog Goruchwyllo", gwmpasu staff sy'n gweithredu fel goruchwylwyr lleoliadau cyfrif, yn ogystal ag unrhyw staff cynorthwyol eraill a gyflogir ar gyfer gweithgareddau y gellir eu priodoli i sefydlu a rheoli lleoliadau cyfrif.

17.4 Os telir staff drwy'r gyflogres, rhaid i chi sicrhau bod trefniadau ar waith i hepgor cyfraniadau Yswiriant Gwladol, oherwydd nis telir o ran y refferendwm.

17.5 O dan Bennawd I4, bwriedir i'r swm am dderbyn hyfforddiant gwmpasu'r costau y mae staff yn mynd iddynt wrth fynychu hyfforddiant, gan gydnabod y ffaith y gall fod angen iddynt gymryd amser i ffwrdd er mwyn gwneud hynny. Ni fwriedir iddo gwmpasu costau darparu'r hyfforddiant, a gwmpesir mewn man arall (o dan "Costau Eraill" - Ffurflen J).

17.6 O dan gostau llety, caniateir gwariant ar luniaeth ysgafn (er enghraifft te / coffi a bisgedi) ar gyfer staff cyfrif. Nid ad-delir unrhyw wariant arall ar luniaeth.

17.7 Rydym hefyd yn argymhell eich bod yn hysbysu eich staff y bydd amodau gwaith yn adlewyrchu rhai diwrnod gwaith arferol, felly rhaid i staff wisgo'n briodol a dod â lluniaeth gyda hwy.

17.8 Bwriedir i gostau llety gwmpasu rhent safle a hefyd bethau fel costau gwres, goleuadau, gofal adeilad, sefydlu a thorri i lawr. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r ystod eang o daliadau am lety cyfrif addas ledled y wlad, yn ogystal â pha mor anodd yw cael gafael arno. Disgwylwch i Swyddogion Cyfrif wneud pob ymdrech i gadw costau o'r fath mor isel â phosibl. Ystyriwch fod digon o hyblygrwydd yn y system i allu lleihau costau mewn meysydd eraill er mwyn talu unrhyw gostau llety ychwanegol annisgwyl. Fodd bynnag, os disgwylwch gostau llety ychwanegol, dylech gysylltu â'r Uned Hawliadau Etholiadau yn y lle cyntaf, gan egluro'r anhawster cyn gynted â phosibl.

17.9 Fel mater o drefn, nid ystyriwch fod angen darparu cyllid ar gyfer lleoliadau cyfrif wrth gefn. Fodd bynnag, os oes gennych bryderon sylweddol ac y gallwch gyfiawnhau pam bod angen lleoliad cyfrif wrth gefn yn ogystal â'r prif leoliad cyn ei logi cysylltwch â'r Comisiwn cyn gynted â phosibl.

17.10 O dan Bennawd I6, Cyfarpar, gellir gwneud hawliadau am gostau cyfarpar caledwedd (fel blychau canlyniadau, byrddau, deunydd ysgrifennu ac

eitemau arbennig tebyg sydd eu hangen ar gyfer y refferendwm hwn, yn enwedig lle nad ydynt ar gael eisoes) os oes eu hangen er mwyn cynnal y bleidlais mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Nid ad-delir costau am systemau sy'n costio mwy na'r hyn sydd ei angen.

17.11 Fel y nodwyd o dan "Cyngor cyffredinol ar yr hyn y gallwch ei hawlio", gall cost deunyddiau sydd eu hangen ar gyfer y refferendwm hwn (fel deunydd ysgrifennu, ffurflenni, ac ati) gael ei hawlio'n llawn. Ni ellir hawlio cost cyfarpar a all gael ei ddefnyddio ar gyfer etholiadau neu at ddibenion eraill (fel blychau canlyniadau) yn llawn, ond ystyrir hawliadau am gyfran o'r gost, sy'n gysylltiedig â'i ddisgwyliad oes a'i ddefnydd mewn pleidleisiau a drefnwyd. Hefyd, ystyrir hawliadau am gyfraniad tuag at gostau unrhyw gyfarpar TG angenrheidiol yn y cyfrif ar yr un sail.

17.12 Ni wnaiff y Comisiwn dalu am brynu gliniaduron newydd ar gyfer y refferendwm hwn. Gallai eitemau o'r fath ddod o ffynonellau eraill fel arfer ac nid yw'n rhesymol i'r trethdalwr dalu am ddarparu gliniaduron i awdurdodau lleol at ddibenion heblaw'r refferendwm.

17.13 Bwriedir i gostau cludiant o dan Bennawd I7 dalu costau cludo'r blychau pleidleisio a dogfennaeth arall o orsafoedd pleidleisio i'r cyfrif, ac o'r cyfrif i'r cyrchfan terfynol. Bwriedir iddynt hefyd gwmpasu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chludo cyfarpar arall i'r ganolfan gyfrif ac oddi yno.

17.14 O dan Bennawd I8 bwriedir i gostau diogelwch gwmpasu'r holl gostau diogelwch, gan gynnwys y dilysu a'r cyfrif, yn ogystal ag unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â storio blychau pleidleisio'n ddiogel rhwng y dilysu a'r cyfrif, os oes angen gwneud hynny. Fel rheol, bydd angen i'r Uned Hawliadau Etholiadau gymeradwyo'r gost o gael yr heddlu yno, oherwydd dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd hyn yn angenrheidiol.

17.15 Disgwyliwn i Swyddogion Cyfrif dalu costau unrhyw ailgyfrif o'u cyllidebau cyffredinol, gan fanteisio ar gostau is mewn meysydd eraill. Lle nad yw hyn yn bosibl, fodd bynnag - er enghraifft yn achos sawl achos o ailgyfrif neu ddigwyddiadau ailgyfrif hir - byddwn yn ystyried cyllid ychwanegol, ar yr amod y bodlonir yr holl ofynion cyfrifyddu. Yn amlwg, ni fydd yn ymarferol ein hysbysu bod angen mwy o arian ar gyfer ailgyfrif ar y pryd ond dylech gysylltu â ni cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad er mwyn egluro'r amgylchiadau.

17.16 Caiff cyfansymiau pob pennawd gwariant a gyfrifwyd ar y ffurflenni ategol eu trosglwyddo'n awtomatig i'r llinell berthnasol yn rhan 2 o Ffurflen I a rhoddir cyfanswm. Yna gall y cyfanswm hwn gael ei drosglwyddo i'r llinell briodol ar Ffurflen A.

17.17 Dylai holl gostau Swyddogion Cyfrif gael eu priodoli i'r pennawd gwariant priodol a ddisgrifir yn yr adran hon.

17.18 Rhaid rhoi cyfrif am bob taliad i staff o dan y pennawd gwariant priodol. Felly, dylai taliadau staff cyfrif gael eu cynnwys ym Mhennawd I1,

taliadau staff goruchwylio a chynorthwyol (a staff Swyddogion Cyfrif) ym Mhennawd I2, taliadau teithio a chynhaliaeth ym Mhennawd I3 a thaliadau hyfforddiant ym Mhennawd I4.

17.19 Ymlaciwyd y gofyniad adrodd bellach er mwyn ei gwneud yn bosibl i gostau staff gael eu nodi'n symlach. Yn hytrach na gorfod rhoi enwau pob aelod o staff, bydd yn ddigonol nodi'r math o staff a nifer y staff a gyflogwyd yn ogystal â'u ffi a'r cyfanswm cost (e.e staff cyfrif x 150 x £8 = £1,200 (symiau enghreifftiol yw'r rhain yn unig)).

17.20 Dylai nifer y staff o'r tîm etholiadau hefyd gael ei dangos mewn cromfachau yn y golofn "nifer y cyflogeion". Bydd hyn yn dangos yn glir gyfran y staff a ddaeth o'r tu allan i'r tîm etholiadau.

17.21 Os yw'n well gennych dalu staff swm cyfunol sy'n cwmpasu cyflogau a lwfansau hyfforddi ac ati, gallwch wneud hynny ar yr amod y rhoddir cyfrif am y taliadau o dan y penawdau gwariant priodol.

17.22 Dylai treuliau eraill - ar gyfer llety (Pennawd I5), cyfarpar (Pennawd I6), cludiant (Pennawd I7) a diogelwch (Pennawd I8) - gael eu cofnodi a dylai'r ddogfennaeth ategol gael ei chyflwyno yn unol â chategoriâu craffu.

17.23 Mae'r gofynion adrodd ar gyfer costau nad ydynt yn gostau staff wedi'u hatgyfnerthu bellach (yn wahanol i gostau staff) lle nad yw'n glir at beth mae eitem yn cyfeirio. Bydd costau o'r fath yn gofyn am naratif mwy manwl o'r hyn a gynhwysir ac yn dangos y TAW sy'n gymwys, os o gwbl.

## 18 Costau eraill - Ffurflen J

18.1 Mae nifer o gostau amrywiol eraill na ellir eu cynnwys mewn man arall y bydd angen i Swyddogion Cyfrif roi cyfrif amdanynt a'u hawlio - mae'r adran hon yn ymdrin â hwy. Mae hyn yn cynnwys costau darparu hyfforddiant (yn hytrach na derbyn a mynychu hyfforddiant). Dim ond costau na ellir eu priodoli rywle arall y dylid eu cynnwys ar y ffurflen benodol hon.

18.2 Dylid rhoi cyfrif am y costau gan ddefnyddio **Ffurflen J ac Atodiadau A-F**.

18.3 Bwriedir i'r costau o dan **Benawdau J1 a J2** gwmpasu'r holl gostau staff cyffredinol sy'n gysylltiedig â refferendwm y DU nas cwmpeisir eisoes yn y cyfrifon. Gallai'r rhain gynnwys costau staff mewn perthynas ag anfon hysbysiadau, ymateb i ymholiadau gan etholwyr, ymdrin â gohebiaeth sy'n benodol i'r refferendwm, goramser ac ati. Os yw'n bosibl priodoli gweithgareddau i benawdau gwariant eraill (gorsafoedd pleidleisio, pleidleisiau post, cardiau pleidleisio neu'r cyfrif), dylech wneud hynny. Dim ond costau na ellir eu priodoli'n hawdd fel arall y dylid eu cynnwys yma, er y cydnabyddir y gall fod yn anodd gwahanu'r costau hyn o'r rhai sy'n gysylltiedig â busnes beunyddiol gwasanaethau etholiadol.

**18.4 Rhaid i Swyddogion Cyfrif sicrhau bod ffioedd a delir o dan y pennawd hwn yn adlewyrchu costau real a gwirioneddol.** Gellir gwneud hawliadau am yr amser y bydd unigolion yn gweithio y tu hwnt i'w horiau craidd. Mae hyn yn cydnabod yr angen i awdurdodau lleol sicrhau bod eu staff ar gael i Swyddogion Cyfrif. Ni ellir dosbarthu taliadau am amser staff yn y diwrnod gwaith arferol fel goramser, er y gellir gwneud hynny am weithio ar y penwythnos a chyda'r nos. Ni ddylid tybio y gellir codi cyfraddau goramser pan fydd staff yn gweithio ar dasgau'r refferendwm pryd bynnag y maent yn cyflawni eu dyletswyddau. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, pan fydd taliad yn ymwneud â gweithgaredd penodol fel agor pleidleisiau post neu gyfrif pleidleisiau, dylid rhestru hynny'n glir yn yr adran briodol ac ni ddylid ei gynnwys o dan J1.

18.5 Er mwyn sicrhau tryloywder, rhaid i holl daliadau staff o dan J1 fod yn seiliedig ar sail wrthrychol y cytunwyd arni ymlaen llaw (gyda chostau'n briodol, yn gymesur ac yn gyfiawnadwy o ran y gweithgaredd dan sylw). Fel y cyfryw, rhaid i bob hawliad o dan J1 gynnwys:

- Dadansoddiad o'r tasgau a gyflawnwyd;
- Y gyfradd y'u talwyd arni;
- A nifer yr oriau a weithiwyd.

18.6 Er enghraifft, fel rheol caiff yr eitemau canlynol eu gwrthod:

- Taliadau i ddirprwyon neu ffioedd sefydlog am y cyfrifoldeb o fod yn Ddirprwy Swyddog Cyfrif (dylai taliadau o'r fath gael eu gwneud o'r ffi ar gyfer Swyddog Cyfrif);
- "Taliadau bonws", h.y. taliadau a roddir i staff yn syml am weithio ar y refferendwm;
- Taliadau nad ydynt yn cynnwys disgrifiad a dadansoddiad digonol o'r hyn mae'r taliadau yn ymwneud ag ef.

18.7 Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac argymhellwn eich bod yn cysylltu â'r Uned Hawliadau Etholiadau cyn ymrwymo i unrhyw wariant os nad ydych yn siŵr a yw unrhyw wariant penodol yn briodol i'w gynnwys o dan y pennawd hwn.

18.8 Fel rheol, derbynnir yr eitemau canlynol ar yr amod bod y costau yn ymddangos yn rhesymol ac yn angenrheidiol er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol:

- Paratoi'r hawliad;
- Recriwtio staff;
- Cyflwyno hysbysiadau;



- Ymateb i ymholiadau gan etholwyr;
- Ymdrin â gohebiaeth sy'n benodol i'r etholiad;
- Goramser, gweithio gyda'r nos ac ar y penwythnos na ellir ei briodoli i bennawd gwariant arall.

18.9 Os telir staff drwy'r gyflogres, rhaid i chi sicrhau bod trefniadau ar waith i hepgor cyfraniadau Yswiriant Gwladol, oherwydd nis telir o ran y refferendwm.

18.10 Ni wnawn ariannu ceisiadau am luniaeth o dan y pennawd hwn.

18.11 Bwriedir i eitem J2 gwmpasu'r costau yr eir iddynt gan Swyddogion Cyfrif a'u staff ar deithio a chynhaliueth mewn perthynas â'r refferendwm na ellir eu priodoli i unrhyw bennawd gwariant arall.

18.12 Caiff costau darparu hyfforddiant ac iddo ffocws lleol eu hawlio o dan Bennawd J3. Bwriedir i'r eitem hon gwmpasu costau'r Swyddog Cyfrif sy'n deillio o ddarparu unrhyw hyfforddiant lleol, yn ogystal â chostau unrhyw gyrsiau hyfforddiant sydd eu hangen ar staff er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau wrth gynnal y refferendwm. Ni fwriedir i'r pennawd hwn gwmpasu unrhyw gostau sy'n daladwy i'r sawl sy'n mynychu'r hyfforddiant, a ddylai gael eu hawlio ganddynt yn eu cyfrifon eu hunain o dan y penawdau gwariant priodol.

18.13 Mae'n amlwg yn bwysig bod staff sy'n ymwneud â chynnal y refferendwm wedi'u hyfforddi'n briodol, a gellir hawlio costau darparu hyfforddiant sydd ei angen er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys hyfforddiant ar weithdrefnau gorsafoedd pleidleisio, anfon a derbyn pleidleisiau post, a gwaith cyfrif. **Ni ellir ariannu** hyfforddiant staff ar gyfer gwaith etholiadol cyffredinol (er enghraifft, gwaith gwasanaethau etholiadol, ateb ymholiadau cyffredinol ac ati) na hyfforddiant ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â chofrestru etholiadol.

18.14 Bydd p'un a yw hyfforddiant yn angenrheidiol ai peidio yn dibynnu ar amgylchiadau unigol - natur yr hyfforddiant, sut mae'n berthnasol, faint sy'n gymwys i'r refferendwm, anghenion unigol y staff ac ati. Er enghraifft, bydd angen i aelod newydd o staff nad yw erioed wedi cyflawni dyletswyddau o'r fath gael hyfforddiant yn amlwg. Lle y cyflwynir prosesau newydd, bydd angen i staff profiadol hefyd gael hyfforddiant yn hynny o beth. Fodd bynnag, ni fyddai'n dderbyniol i ni dalu am hyfforddiant ar gyfer aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant tebyg yn ddiweddar, neu am gwrs hyfforddi "ategol" hirfaith pan ellid bod wedi darparu'r hyfforddiant mewn sesiwn o awr neu ddwy. Os bydd y swm y hawlir yn sylweddol uwch na'r hyn a ddisgwyliid yn arferol, rhaid cyfiawnhau'r hawliad yn fanwl.

18.15 Wrth hawlio costau hyfforddiant, rhaid i Swyddogion Cyfrif ddarparu'r holl anfonebau a derbynebau angenrheidiol yn y ffordd arferol. Hefyd, rhaid i chi gadarnhau bod yr hyfforddiant rydych yn hawlio ar ei gyfer yn angenrheidiol er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

18.16 Fel gydag unrhyw ddefnydd o arian cyhoeddus, dylai hyfforddiant fod yn gymesur a rhoi gwerth am arian. Mater o farn yw hyn, ac felly nid yw'n bosibl sicrhau ymlaen llaw nac ym mhob achos yr ariennir cwrs hyfforddi unigolyn penodol. Fodd bynnag, pan fo hyfforddiant o'r fath yn rhesymol ac yn angenrheidiol er mwyn cynnal y refferendwm yn y DU mewn perthynas ag amgylchiadau'r unigolyn sy'n derbyn yr hyfforddiant, yna fe'i hariennir. Ond, fel o'r blaen, ni fyddai, er enghraifft, yn rhesymol i ni ariannu cwrs preswyl wythnos o hyd pan ellid darparu'r hyfforddiant perthnasol yn lleol mewn diwrnod.

18.17 Bwriedir i'r symiau a gaiff eu hawlio o dan Bennawd J4 (deunyddiau a gwasanaethau) adlewyrchu costau deunyddiau a gwasanaethau sy'n angenrheidiol ond na ellir rhoi cyfrif amdanynt o dan benawdau gwariant eraill. Gallai'r rhain gynnwys costau argraffu hysbysiadau, deunydd ysgrifennu cyffredinol (y tu hwnt i ddeunydd ysgrifennu gorsafoedd pleidleisio, pleidleisiau post a'r cyfrif), tâl postio (ond nid y gost o anfon pleidleisiau post na chardiau pleidleisio), biliau ffôn, taliadau banc ac ati.

18.18 Mae'r cyfeiriad at gostau ffôn yn cynrychioli unrhyw gostau ffôn y gellir eu priodoli i'r refferendwm ar wahân. Ni fwriedir i'r eitem hon gwmpasu cost darparu ffonau i staff ond yn syml unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â defnyddio ffonau sydd ganddynt eisoes. Cydnabyddwn y gall fod achosion lle mae angen cysylltu â staff ar fyrder ac mai'r ffordd orau o wneud hynny yw drwy ddefnyddio ffôn symudol. Ond nid yw'n rhesymol i ni dalu am brynu ffonau symudol newydd sbon ar gyfer y refferendwm hwn pan ellir eu defnyddio ar gyfer etholiadau eraill ac at ddibenion eraill. Ni ddylai fod angen gwneud hyn yn y rhan fwyaf o achosion beth bynnag. Prin iawn yw nifer y bobl nad ydynt yn berchen ar ffôn symudol neu na allant gael gafael ar un a dylai fod modd trefnu i'r rhai lle nad yw hynny'n wir logi un. Gellir caniatáu gwariant ar logi ffonau symudol ar yr amod nad yw'r gost yn eithafol, ond ni ddarperir unrhyw gyllid ychwanegol uwchlaw'r uchafswm y gellir ei adennill i dalu amdano - rhaid ei dalu o'ch gwariant cyffredinol os dewiswch y llwybr hwnnw. Dylid rhoi cyfrif amdano o dan y pennawd priodol - fel arfer o dan gostau cyfarpar gorsaf bleidleisio.

18.19 Gellir priodoli costau i ddefnyddio canolfannau galwadau er mwyn ymdrin ag ymholiadau yn ymwneud â'r refferendwm. Lle yr hawlir y rhain, rhaid iddynt fod yn benodol a dim ond ymwneud â'r costau hynny yr eir iddynt sy'n benodol i ymholiadau yn ymwneud â'r refferendwm. Ni ddylid hawlio costau mewn perthynas ag ymholiadau sy'n ymwneud â swyddogaethau Swyddog Cofrestru Etholiadol, er enghraifft, yn ymwneud â chofrestru neu geisiadau i bleidleisio drwy'r post, oherwydd ni ellir priodoli'r costau hyn i'r Swyddog Cyfrif. Felly, mae'n bwysig bod unrhyw hawliad sy'n ymwneud â chanolfannau galwadau yn rhoi dadansoddiad manwl o gyfanswm a natur y galwadau a dderbynnir a sut mae'r hawliad yn ymwneud â'r dosrannu.

18.20 Fel yr amlinellwyd ym mhara. 3.16 o dan y pennawd "Archwilio eich Cyfrifon", nid yw'r Comisiwn wedi gwneud unrhyw lwfans penodol ar gyfer llyfrifwr mewnol yn y Gorchymyn Taliadau. Gwnawn ystyried talu'r costau o dan Bennawd J4 (deunyddiau a gwasanaethau) ar yr amod eu bod yn rhesymol ac o fewn yr uchafswm cyffredinol y gellir ei adennill gennyh. At

hynny, dylai defnyddio a thalu llyfrifwr wella ansawdd yr hawliad yn amlwg, a ddylai ei gwneud yn haws ac yn gyflymach i'w prosesu gan yr Uned Hawliadau Etholiadau.

18.21 Yn y gorffennol, barnwyd bod cost un gwerslyfr fesul cyngor (er enghraifft "Parker's Law and Conduct of Parliamentary Elections") yn draul etholiad dderbyniol, oherwydd gellir dadlau ei bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y cynhelir yr etholiad yn briodol. Fodd bynnag, gan fod modd defnyddio unrhyw werslyfr i helpu gydag etholiadau eraill ac at ddibenion etholiadol cyffredinol, mae'r Llywodraeth ond wedi bod yn barod i ariannu'r pryniant cychwynnol, ac nid unrhyw danysgrifiadau blynyddol.

18.22 Bydd gan y rhan fwyaf o awdurdodau gopi o'r fath eisoes a byddant yn cael diweddariadau rheolaidd, felly ni ddylai fod angen unrhyw rifyn pellach. Os prynwyd copi gan Swyddog Canlyniadau neu awdurdod lleol mewn unrhyw un o'r pum etholiad cenedlaethol diwethaf (2009 - 2015), yna dylai diweddariadau fod wedi'i gadw'n gyfredol ac nid ystyrir unrhyw hawliadau am gopi pellach. Dylai unrhyw hawliad a wneir o dan y draul hon gael ei wneud o dan ddeunyddiau a gwasanaethau (Pennawd J4), gan nodi na wnaed unrhyw hawliad cynharach, gan egluro pam bod yr hawliad hwn yn angenrheidiol a chan gynnwys y ddogfennaeth briodol.

18.23 Gall Swyddogion Cyfrif yng Nghymru hawlio am gostau cyfieithu lle bo'n angenrheidiol. Mae'r Comisiwn/Swyddfa'r Cabinet wedi darparu cyfieithiadau Cymraeg llawn o bob ffurflen a hysbysiad. Nid yw'r Comisiwn yn ariannu cyfieithiadau eraill o ddogfennau etholiadol i ieithoedd eraill, gan eu bod eisoes ar gael am ddim gennym.

18.24 Caiff cyfansymiau pob pennawd gwariant a gyfrifwyd ar y ffurflenni ategol eu trosglwyddo'n awtomatig i'r llinell berthnasol yn rhan 2 o Ffurflen J a rhoddir cyfanswm. Yna gall y cyfanswm hwn gael ei drosglwyddo i'r llinell briodol ar Ffurflen A.

18.25 Fel mewn manau eraill, rhaid rhoi cyfrif priodol am bob taliad i staff, yn yr achos hwn o dan benawdau J1 (taliadau i staff na ellir eu cofnodi rywle arall) a J2 (teithio a chynhaliadaeth). Gall y rhain naill ai gael eu rhestru yn yr atodiad i ffurflen J, neu fel atodlen ategol debyg os oes un ar gael (fel nad oes angen eu copio allan i gyd). Rhaid darparu tystiolaeth o bob taliad, naill ai drwy dalebau a lofnodwyd, llyfr cyflogau a lofnodwyd neu wybodaeth gyflogres arall. Bydd rhestrau taliadau cyfunol - er enghraifft rhestrau o daliadau BACS - hefyd yn dderbyniol, ar yr amod eu bod yn cadarnhau y gwnaed taliadau i staff penodol am ddyletswyddau penodol a'u bod wedi'u hardystio'n gywir gan y Swyddog Cyfrif neu ddirprwy.

18.26 Os telir staff drwy'r gyflogres, rhaid i chi sicrhau bod eich hawliad yn hepgor cyfraniadau Yswiriant Gwladol, nas telir o ran y refferendwm.

18.27 Gellir hawlio costau goramser dilys staff o dan y pennawd hwn (ac o dan benawdau costau staff eraill), ond dim ond mewn achosion lle gweithiwyd goramser a bod tystiolaeth o hynny ar gael. Ni ellir dosbarthu taliadau am amser staff yn y diwrnod gwaith arferol fel goramser, er y gellir gwneud hynny

am weithio ar y penwythnos a chyda'r nos. Ni ddylech dybio y gellir codi cyfraddau goramser pan fydd staff yn gweithio ar dasgau'r refferendwm pryd bynnag y maent yn cyflawni eu dyletswyddau. Lle yr hawliwyd cyfraddau goramser, rhaid rhoi manylion llawn yr oriau a weithiwyd (er enghraifft, pryd a sawl awr), yr angen i weithio y tu allan i oriau arferol, y cyfraddau a dalwyd a'r cyfiawnhad drostynt. Dylid rhoi'r wybodaeth hon ar ffurf atodiadau ar wahân, ond gallwch ddewis nodi yn y blwch esboniadol beth yw hyn.

18.28 Rhaid i Swyddogion Cyfrif ddarparu'r canlynol:

- Enw'r cyflogai a dadansoddiad o'r tasgau a gyflawnwyd;
- Cyfradd yr awr yr unigolyn;
- Nifer yr oriau a weithiwyd.

18.29 Bydd hyn yn golygu y gellir craffu ar daliadau staff heb fod angen i awdurdodau lleol gyflwyno talebau wedi'u llofnodi ar gyfer pob taliad a dylai leddfu unrhyw bryderon y bydd caniatáu adennill eitemau heb ddogfennaeth ategol yn cynyddu'r risg o wariant annilys neu dwyllodrus. Ni thelir yr hawliadau hyn mwyach oni ddarperir dadansoddiad.

18.30 Rhaid i daliadau ar gyfer costau eraill hefyd gael eu dangos o dan y Penawdau priodol. Dylid rhoi manylion costau darparu hyfforddiant o dan bennawd J3, deunyddiau a gwasanaethau o dan bennawd J4, cyfieithu o dan bennawd J6 a chyngor cyfreithiol o dan bennawd J7. Dylai taliadau gael eu hategu gan dystiolaeth, fel anfonebau a dalwyd neu dalebau a lofnodwyd (dim ond mewn rhai achosion y bydd angen cyflwyno'r ddogfennaeth ategol hon, yn dibynnu ar eich lefel graffu).

18.31 Dylid hefyd roi cyfrif am unrhyw log a enillir ar arian a roddwyd mewn cyfrifon banc etholiad o dan bennawd J4. Nodwch yn glir ar y ffurflen a'r ddogfennaeth ategol fod y ffigur hwn yn un cadarnhaol a fydd yn lleihau'r cyfanswm a gaiff ei hawlio ar y ffurflen hon.

18.32 Mae'r gofynion adrodd ar gyfer costau nad ydynt yn gostau staff wedi'u cynyddu bellach lle nad yw'n glir at beth mae eitem yn cyfeirio. Bydd costau o'r fath yn gofyn am naratif mwy manwl o'r hyn a gynhwysir ac yn dangos y TAW sy'n gymwys (os o gwbl).

18.33 Noder y gall disgrifiadau amwys ar y ffurflenni beri i'r Uned Hawliadau Etholiadau gwestiynu'r draul a gall wedyn ofyn am y ddogfen neu'r dogfennau ategol mewn perthynas â'r draul, hyd yn oed ar gyfer hawliadau sy'n destun proses graffu cyfrifon neu gyffyrddiad ysgafn

18.34 Wrth hawlio am ad-dalu costau hyfforddi, rhaid i'r Swyddog Cyfrif gadarnhau bod yr hyfforddiant dan sylw yn angenrheidiol er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, a dynodi cyfran yr hyfforddiant y gellir ei phriodoli i'r bleidlais ym mlwch esboniadol 2.

18.35 Fel rheol, ni fydd angen hawlio am gyngor cyfreithiol a chyn ceisio unrhyw gyngor cyfreithiol y gellir codi tâl amdano dylech gysylltu'n gyntaf â'ch Swyddog Cyfrif Rhanbarthol neu'r Comisiwn am gyngor a chanllawiau priodol. Os byddwch yn hawlio am gyngor cyfreithiol o dan Bennawd J7 a roddwyd o fewn yr awdurdod lleol, bydd anfoneb fewnol neu gadarnhad o'r gost gan adrannau Cyllid mewnol yn ddigon o dystiolaeth (dim ond mewn rhai achosion y bydd angen cyflwyno'r ddogfennaeth ategol hon, yn dibynnu ar eich categori craffu).

## 19 Tryloywder Costau Staff - Ffurflen L

19.1 Diben Ffurflen L yw gwella tryloywder taliadau a wneir i staff am waith a wnaed mewn perthynas â'r refferendwm. Mae'r ffurflen yn dwyn ynghyd gofnod o'r taliadau a wnaed i unrhyw unigolyn o £2,500 neu fwy. Bydd y ffurflen yn rhoi mwy o eglurder o ran nifer yr oriau a weithiwyd a'r gyfradd yr awr a dalwyd i unigolyn.

19.2 Rhaid rhestru pob taliad staff unigol sy'n £2,500 neu fwy, gyda dadansoddiad o'r tasgau a gyflawnwyd, ar ba gyfradd y'u talwyd a pham bod yr unigolion hyn wedi cael mwy na £2,500 ar gyfer yr hawliad cyfan. Rhaid i fanylion y ffurflen hon gynnwys:

- Disgrifiad digon manwl o'r tasgau a gyflawnwyd;
- Eu cyfradd yr awr;
- Nifer yr oriau a weithiwyd.

19.3 Heb y wybodaeth hon, efallai na chaiff symiau unigol mawr heb esboniad eu talu.

19.4 Yn achos pob unigolyn sy'n hawlio taliad neu gyfuniad o daliadau o £2,500 neu fwy, bydd angen iddynt roi teitl eu swydd, unrhyw gyfeirnod taleb neu ddogfennaeth ategol ac o dan ba bennawd gwariant y caiff ei hawlio. Gellir ychwanegu rhesi fel sydd angen a chaiff y cyfanswm cyffredinol fesul unigolyn ei ychwanegu.

19.5 Bydd hefyd angen rhoi gwybodaeth yn y blwch am:

- Y ffordd y sefydlwyd y tîm etholiadau: strwythur, cyfrifoldebau ac ati;
- Pryd y cyflawnwyd y tasgau; yn ystod oriau swyddfa, gyda'r nos neu ar y penwythnos;

- A gymerwyd gwyliau blynyddol, absenoldeb di-dâl neu absenoldeb arbennig er mwyn galluogi staff i weithio ar yr etholiad.

Bydd hyn yn helpu i feithrin dealltwriaeth o sut y caiff timau etholiadau eu strwythuro'n wahanol a bydd yn llywio'r ffordd yr ystyrir cyllid etholiadau yn y dyfodol.

## 20 Cofnod o Gyfarpar - Ffurflen M

20.1 Mae Swyddfa'r Cabinet am adolygu a chasglu data ar y cyfarpar a brynwyd gan Swyddogion Canlyniadau er mwyn deall sut y gallai costau edrych yn y dyfodol. Dros y blynyddoedd, mae rhai Swyddogion Canlyniadau wedi cael grantiau mawr i brynu cyfarpar yn llawn ymlaen llaw. Yn fwy diweddar mae Swyddfa'r Cabinet wedi symud tuag at ofyn am hawliadau yn seiliedig ar ganran o'r gost o bob etholiad.

20.2 Y ddwy eitem y mae Swyddfa'r Cabinet yn ymddiddori ynddynt fwyaf yw bythau pleidleisio a blychau pleidleisio a byddai'n hoffi i Swyddogion Canlyniadau (Swyddogion Cyfrif) gwblhau'r wybodaeth hon ar Ffurflen M sydd newydd ei chreu. Mae'n ymwybodol y prynwyd peth cyfarpar yn hanesyddol ac efallai na fydd cofnod o'r gost wreiddiol na phwy a wnaeth ei brynu. Os nad oes gennych unrhyw gofnodion nodwch hyn o dan y tab 'Sylwadau'.

**20.3 Noder nad yw'r ffurflen hon (Ffurflen M) yn berthnasol i Swyddogion Cyfrif yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gibraltar.**